PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 401 | Medi 2017




t.10-12 Yr enw Bwstryd



t.4 Jacob yn Bang

Mwy o bêl droed Bow Street t.18



# Twrnament pêl-droed Bow Street



Bow Street - enillwyr merched dan 13



Ryan Evans – enillydd tlws Mark Horwood ar y dydd Sul, gyda Harri Horwood



Bow Street - enillwyr bechgyn dan 16 oed

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref – Deunydd i law:** Hydref 6 **Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 18

**MEDI 20** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn. Y Parchg D. Ben Rees yn trafod ei gyfrol *Cofiant Cledwyn Hughes: un o wŷr mawr Môn a Chymru* (Y Lolfa) yn festri Horeb am 7.30

**MEDI 23** Nos Sadwrn Cyngerdd ym Methel, Stryd y Popty, Aberystwyth yng nghwmni Côr Meibion Machynlleth (ffeinal Côr Cymru 2017), Aled Wyn Davies, Côr Academi Gerdd y Lli. Tocynnau - £10 ar gael gan Megan Jones 01970 612768. Elw'r noson tuag at Hosbis yn y Cartref a Ward Enlli, Ysbyty Bron-glais

**MEDI 30** Bore Sadwrn Bore coffi yn Neuadd Rhydypennau o 10.00-12.00 Raffl, cacennau a stondin gacennau, twba lwcus, enwi'r Tedi. Codi arian i Hahav. Dewch i gefnogi. Am fwy o fanylion cysylltwch â 07968 652822

**MEDI 30** Nos Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno Dim byd ynni gan Emlyn Gomer yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30 Tocynnau: Fal Jenkins (01970) 832 560

**HYDREF 2** Nos Lun Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cylch Meithrin Trefeurig am 7.30.

**HYDREF 4** Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Horeb am 7.00 Pregethwr gwadd: Y Parchg Ddr Watcyn James, Gofalaeth y Garn

**HYDREF 7** Dydd Sadwrn Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Rhaglen lawn a ffurflen gofrestru ar gael drwy gysylltu ag enwaulleoedd@gmail.com. Dyddiad cau cofrestru: 18 Medi 2017

**HYDREF 13** Nos Wener Eisteddfod papurau bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.30

**HYDREF 15** Dydd Sul Taith tractorau er cof am Ken Hughes, K L Hughes, Troedrhiwgwynau, i godi arian i Hospis Hafren. £10 y tractor, taith o tua 15/20. milltir, Dechre ym Mart Aberystwyth, Gelli Angharad. Te/cacen & tynnu Raffl ar ddiwedd y daith 13.00-16.00

**HYDREF 16 a 17** Nosweithiau Llun a Mawrth Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Hollti gan Manon Wyn Williams yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**HYDREF 18** Nos Fercher Richard E. Huws yn sôn am ei gyfrol *Enwau tai a ffermydd presennol cymuned Bont-goch (Elerch)* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 21** Nos Sadwrn John ac Alun a Wil Tân nôl yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau -£10 - ar gael o Llety Parc neu drwy ffonio Megan ar (01970) 612768. Holl elw'r noson yn mynd tuag at Beicwyr Gwaed Cymru.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mai 2017

£25 (Rhif 90) Gethin Wynne Jones, Trem y Ddôl, Bow Street
£15 (Rhif 51 ) Gwerfyl P Jones, 41 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 101) Gwynfryn Evans, Y Ddôl, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mai 17

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Sir Ceredigion £500
Cyngor Cymuned Tirymynach £400
Cylch Cinio Aberystwyth £100

# 30 MLYNEDD YN ÔL



**Sioe Penrhyn-coch**
O'r chwith: Arthur Thomas (yr ysgrifennydd newydd), I. Gwyn Williams (Cadeirydd), Gwyn Williams, Llanbedr Pont Steffan; Ceinion Jones (Prif enillwyr); Dr John Stoddart (Llywydd y dydd).
Llun: Hugh Jones (O *Dincer* Medi 1987)

# Cylch Cinio Aberystwyth

Daeth blwyddyn lwyddiannus i ben yn hanes Cylch Cinio Aberystwyth yng nghlwb y Quins, Caerfyrddin ar nos Wener Gorffennaf 14 yng nghwmni y Parch Dorrien Davies, Tyddewi. Wrth gyflwyno'r gŵr gwâdd cyfeiriodd y Cadeirydd Tudor Jones bod ein siaradwr newydd gael ei ddyrchafu yn Ddeon Gwlad Sir Gâr a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd. Yn ei anerchiad cawsom stribed o straeon doniol iawn am ei brofiadau fel offeiriad, a llawer o'r straeon yn deillio o'i gyfnod yn ficer yn Nyffryn Aeron. Diolchwyd iddo gan Gwynfor Williams a gyfeiriodd ato fel personoliaeth lawn ac yn ogystal a'i hiwmor a'i ddoniolwch bod yna ochr sensitif a thyner iawn i'w bersonoliaeth.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn ystod y noson a derbyniwyd adroddiad ariannol manwl gan Y Trysorydd Dicky Wyn Davies. Cytunwyd eleni eto i gyfrannu £100. yr un i'r pedwar papur bro yn yr ardal: Yr Angor, Y Tincer, Papur Pawb a'r Ddolen. Cyflwynwyd cais am gefnogaeth i Megan Meredith o Aberystwyth sy allan yn Tanzania yn cael profiad o weithio mewn sefyllfa anodd fel ffysiotherapydd mewn ysbyty yn ninas fwya'r wlad Dar es Salaam a chytunwyd i gyfrannu £100. at ei chostau. Darllenwyd llythyr oddi wrth HAHAV - Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth yn gofyn am gefnogaeth y Cylch Cinio a phenderfynwyd cyfrannu £100. at yr achos da.

Cadarnhawyd mai John Davies (Betws) yw Cadeirydd newydd y Cylch ac fe ail-apwyntiwyd yr Ysgrifennydd, Trysorydd a Swyddogion y Wasg. Etholwyd y Dr Richard Edwards yn Is-Gadeirydd. Diolchwyd i Tudor Jones am ein harwain yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ac i'r Trysorydd am ei waith manwl ac i'r Ysgrifennydd Huw Williams am drefnu'r cyfarfodydd misol.

Cadarnhawyd bod ein cynnig wedi ei dderbyn i gyflwyno'r Gadair i'r Eisteddfod Genedlaethol, os, a phan y daw'r Brifwyl i Geredigion. Trafodwyd hefyd y byddai'n ddymunol i ystyried achlysur nodedig yn ystod y flwyddyn gan wahodd pawb sydd wedi bod yn aelodau o'r Cylch Cinio dros y blynyddoedd ynghŷd i ginio arbennig i ddathlu hirhoedledd y Cylch Cinio. Penodwyd panel bychan i ystyried ymarferoldeb y syniad. Awgrymwyd hefyd bod yna ddymuniad i gynnal noson ar y cyd gyda Chylch Cinio Caerfyrddin.

Bydd ein cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yn cael ei gynnal ar Fedi 8fed a bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd.



**Hoelion wyth Cylch Cinio Aberystwyth 2017: Huw Williams, Ysgrifennydd; Wynne Melville Jones, Gohebydd y Wasg; John Davies, Cadeirydd; Dafydd Evans, Gohebydd y Wasg Cynorthwyol; Dr Richard Edwards, Is-Gadeirydd; Tudor Jones cyn-Gadeirydd; Richard Wyn Davies; Trysorydd**

**Cofia'n Gwlad**
Bydd **Cofia'n Gwlad** - ffilm o Brosiect Cofio a Myfyrio y Tair Gofalaeth yn cael ei dangos yn sinema Libanus y Borth ar Dachwedd 9fed am 8.00. Tocynnau am ddim – ond dim ond 60 o seddau sydd yno felly'r cyntaf i'r felin. Tocynnau ar gael oddi wrth Llinos Evans, ar 01970 871615.

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau**

**Capel Pen-llwyn**

*Medi*

24 10.00 Oedfa Menter Gobaith – Capel y Morfa – Y Parchg Eifion Roberts

*Hydref*

1 5.00 Nicholas Bee

8 5.00 Elwyn Pryse

15 5.00 Carwyn Arthur

29 10.00 Ifan M Davies – unedig yn Llwyn-y-groes

**Eglwys Dewi Sant**

*Hydref*

4 Nos Fercher Gwasanaeth Diolchgarwch am 6.30

8 Pnawn Sul Gwasanaeth Anifeiliaid Anwes am 2.30

*Tachwedd*

5 Dydd Sul Gwasanaeth Yr Ymadawedig am 11.00

12 Dydd Sul Gwasanaeth Sul y Cofio am 9.30

*Rhagfyr*

1 Nos Wener Noson Goffi, Raffl Fawr ac Adloniant gan Merched Bro'r Mwyn yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

17 Nos Sul Gwasanaeth Carolau am 6



Jacob Ifan yw un o brif gymeriadau y gyfres Bang sydd i'w weld fel prif gymeriad y gyfres Bang sydd i'w gweld ar nos Sul ar S4C. Ganwyd Jacob yng Nghaerdydd a bu'n byw yn Nhreganna cyn i'r teulu symud i Aberystwyth pan oedd yn naw mlwydd oed. Bu'r teulu hefyd yn byw yn Y Borth a Llanfihangel-y-Creuddyn cyn symud i Gapel Bangor. Bu'n frwdfrydig am ffilmiau pan yn yr ysgol a mynychodd glwb drama Arad Goch yn blentyn; wrth fynd yn hŷn roedd yn manteisio mwy ar gyfleoedd actio ac ymunodd â theatr ieuenctid yng Nghanolfan y Celfyddydau. Graddiodd o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 2015, tra ei fod wedi dechrau ffilmio Cuffs.

**Oriau agor hwyrach**

Mae Exchange Stores ar agor pob nos Wener a Sadwrn tan 9 o'r gloch gyda chawl cartref a rholiau porc wedi'i rwygo gyda stwffin a saws afal ar gael.

**Cyfarfod Merched y Wawr Melindwr**

Agorwyd tymor newydd cangen Melindwr nos Fawrth 5ed o Fedi gyda noson ymaelodi.Trefnodd y pwyllgor newydd raglen amriwiol ar ein cyfer dros y deng mis nesaf yn cynnwys ymweliad mis nesaf i Amgueddfa Ceredigion. Croesawodd ein Llywydd - Lynne Davies - pawb gan roi croeso arbennig i ddwy gyn aelod ac un aelod newydd. Roedd sawl ymddiheuriad gyda gwyliau yn dal i barhau.

Cychwynwyd gyda hysbysebion yn atgoffa pawb am ddigwyddiadau cenedlaethol y mudiad y penwythnos dilynol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Esboniwyd mantolen 2016/17 gyda pawb yn diolch i Llinos Evans, ein trysoryddes, ynghyd â Eirona Armitage am baratoi mor fanwl. Diolchwyd hefyd i Mr Ieuan Griffith am ei waith archwilio.

Trosglwyddwyd gweddill y noson i Manon Reynolds sydd ers blwyddyn a hanner wedi sefydlu busnes yn gwerthi cynhyrchion trwy gwmni o'r enw Forever Living.

Dangoswyd y cynhyrchion ac esboniwyd safon y cynhwysion. Aloe vera y prif gynnwys ers 1978 sydd yn gwneud cymaint o wellhad i pawb dros y byd mewn gwahanol ddull.Y maent yn cael eu defnyddio i wella anifeiliaid hefyd.

Ar ôl i Lynne ddiolch i Manon am y cyflwyniad a'r cyfle i'w trafod tynnwyd y raffl. Yn olaf cafwyd paned bleserus a chacennau bach hyfryd wedi eu paratoi gan ein swyddogion. Edrychwn ymlaen i gwrdd tu allan i'r Amgueddfa am 6-30 nos Fawrth 3ydd Hydref.

**Croeso**

Dymuniadau da i breswylwyr Roserina, Cefnmelindwr, sef Mr a Mrs Llywelyn a Rhian Hurley, a'u mab bach Oscar sy'n 4 mlwydd oed. Mae'n debyg eu bod wedi byw yn Nolypandy beth amser yn ôl. Mae Rhian yn ferch i'r "BrodyrMorris" - gwerthwyr ystafelloedd ymolchi ac yn y blaen. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Mr a Mrs John a Marie Howells, Pencoed, sydd yn dathlu priodas aur ar ddiwedd y mis. Ymlaen yn awr i'r diamwnt!



**The Big Tribute**

Cynhaliwyd eto y sioe "Big Tribute" ar benwythnos Gŵyl y Banc, ar gaeau Abercwmdolau. Mae yr ŵyl hon yn digwydd yn flynyddol bellach. 'Roedd yno gannoedd o garafannau, ceir, pebyll, a stondinau, ac yn bictiwr o riw Gwarallt, wrth edrych i lawr y cwm.'Roedd yno bobl a phlant o bob oedran yn mwynhau y gwahanol

Yr un dymuniadau gorau i Delyth Davies, Maencrannog, wedi dathlu pen blwydd arbennig y mis diwethaf. Pob hwyl Delyth.

**Swydd newydd**

Mae Angharad Edwards, 2 Stad Pen-llwyn, wedi dechrau ar ei swydd newydd, fel athrawes yn ysgol Rhydypennau. Hyderwn y bydd yn hapus yno.

**Pen blwydd**

Llongyfarchiadau cynnes i Mr. Malcome Richards, Murmur y Coed, ar ddathlu pen blwydd arbennig ar y 19eg o Fedi. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Ysbyty**

Bu Ryan Mathews 6 Stad Pen-llwyn, yn sal iawn y mis diwethaf, ac yn y Ward Gofal Dwys am beth amser, Bu ei rieni yn ofidus iawn am ddyrnodau lawer. 'Rydym yn falch iawn ei fod yn gwella erbyn hyn ac adref gyda'i deulu. Gwellad llwyr a buan i ti Ryan.

Mae Mrs Eirwen Mcnaulty, Pengraig, hefyd wedi derbyn llawdriniaeth feddygol yn ddiweddar. Hyderwn ei bod ar wellhad erbyn hyn. Pob dymuniad da Eirwen.

**Llwyddiant**

Mae cangen Melindwr o Ferched y Wawr wedi gosod Diffibriliwr tu allan i Ysgol





Pen-llwyn, Capel Bangor yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa'r Loteri Fawr. Gweler rhai o aelodau Merched y Wawr yn y llun gyda phlant Ysgol Pen-llwyn a Glan Davies o Galonnau Cymru.

Rhai o aelodau Merched y Wawr Melindwr yn y te pnawn a gynhaliwyd gan y mudiad i ddathlu'r aur ar dechrau Gorffennaf.

**Marwolaethau**

Trist iawn yw gorfod cofnodi sawl un sydd wedi huno ers argraffiad diwethaf y *Tincer* sef Vera Lewis, Taliesein - mam Mrs Iola Evans, Exchange (gweler dan Dôl-y-bont); Mrs R Bowen, Glynorig; mam Ann Kenny, Llwynehedydd a Mr Gwynfor Jones, Llwyniorwerth Uchaf. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'u teuluoedd, a chofiwn amdanynt yn eu hiraeth. Cyhoeddir teyrnged i Gwynfor Jones yn rhifyn Hydref.

**Croeso**

Croeso cynnes iawn i weinidog Capel Pen-llwyn a gofalaeth y Garn - sef y Parchg Ddr Watcyn James a Mrs Lowri James ei briod. Dymunwn yn dda i'r ofalaeth ac iddynt hwy yn eu cartref newydd y Mans. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.


## TREFEURIG

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Faith Robinson a'r teulu, y Byngalo, Cwmsymlog, ar farwolaeth Dr Ian Robinson fu farw o leukemia ar 7 Medi. Cynhaliwyd angladd preifat dydd Sadwrn 16 Medi ond bydd cyfle eto i gofio amdano mewn dathliad. Derbynir yn ddiolchgar roddion er cof am Ian tuag at Farm Africa – elusen y bu Ian yn gweitthio gyda nhw gan Selwyn Evans o D J Evans, Trefnwyr Angladdau, Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EG

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

## O'r Cynulliad Elin Jones



Mae'r haf wedi bod yn dirwyn i ben, a nifer o ymgyrchoedd yr haf yn parhau. Un ohonynt yw'r ymgyrch i gadw Bodlondeb, cartref preswyl i'r henoed ym Mhenparcau, ar agor. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 25 Medi ac mae'n bwysig iawn fod pawb yn cymryd rhan, er mwyn i ni sicrhau bod cynllun hir dymor ar gyfer gofal i'r henoed yng ngogledd Ceredigion. Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar wefan y cyngor, neu drwy gysylltu â fy swyddfa.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynnal ymgynghoriad ar bysgota yng Nghymru. Mae eu cynlluniau yn mynd i effeithio ar bysgotwyr eog a sewin. Mae niferoedd y pysgod yn ein afonydd yn prinhau a'r bwriad yw i gwtogi yn sylweddol ar bysgota. Rwy'n annog i bawb sydd â diddordeb yn hyn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, sydd i'w gael ar wefan Cyfaeth Naturiol Cymru, neu drwy gysylltu, unwaith eto, a'm swyddfa.

Rwyf wedi derbyn cadarnhad pellach am orsaf drenau newydd BowSt./Gogerddan. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu ar y cyd â San Steffan ac mae disgwyl i'r orsaf fod ar agor erbyn 2020. Newyddion da i ardal Aberystwyth. Mae'r gwaith ar astudiaeth ddichonoldeb ail-agor rheilffordd Aberystwyth i Gaerfyrddin hefyd nawr yn cychwyn.

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd
mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**

*Medi*

24 Sul Sul Menter Gobaith – 10.00 Capel y Morfa y Parchg Eifion Roberts

*Hydref*

1 2.30 Y Parchg Peter Thomas
8 10.30 Oedfa ddiolchgarwch deuluol
15 10.00 a 6.00 Cyrddau pregethu Bethel – Y Parchedig Ddr Denzil Morgan
22 10.30 2.30 – Horeb yn Nhregerddan
29 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gemma a Greg Vearey-Roberts, Dôl Helyg, ar enedigaeth merch fach - Casi Olivia ar Orffennaf 5ed.

**Gradd**

Llongyfarchiadau i Eleri Jones, Ger-y-llan, ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd) mewn Astudiaeth Plentyndod.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Val a Ceinion Jones, Maes Seilo, ar ddathlu eu priodas aur ar 24 Mehefin.

**Ymddeoliad**

Dymuniadau gorau i Carol Izri, Ger-y-llan, ar ei hymddeoliad o Ysgol Gyfun Penweddig fis Gorffennaf.

**Wynn Humphreys**
**Penrhyn-coch (gynt o Gwmllinau)**
**1944 – 2017**

Yn dawel adref yn ei gwsg ar y 30ain o Fawrth, 2017, bu farw Wynn Humphreys, yn 72 oed. Yn fab i'r diweddar Edward a Martha Humphreys fe'i magwyd gyda'i chwaer Ann, ym mhentref Cwmllinau. Ar ôl gadael Ysgol Bro Ddyfi yn 15 oed, aeth i weithio i'r Comisiwn Coedwigaeth, ac fe fu yn gweithio yn y diwydiant coed mewn gwahanol swyddi am 51 mlynedd - yn olaf fel Rheolwr Ardal Tillhill Harvesting. Gwaith oedd bywyd Wynn, ac ar ôl gadael y goedwigaeth, treuliodd bron i 6 mlynedd hapus iawn yn gweithio yn ysbyty Bron-glais, fel gyrrwr, cyn iddo orfod adael oherwydd salwch hirdymor.

Ar ôl cyfarfod a'i ddarpar wraig Rhiannon yn 1967, fe fu iddyn nhw briodi yn 1969, a symud i Ceinws am gyfnod byr, cyn treulio 4 mlynedd hapus iawn ym Mryncrug, lle ganwyd eu dwy ferch – Cerys a Lisa. Ar ôl cael dyrchafiad yn y gwaith, bu rhaid i'r teulu symud i Benrhyn-coch, lle bu Wynn yn dilyn Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, ac yn Gadeirydd yno am rhai blynyddoedd. Roedd gan Wynn ddiddordeb enfawr mewn beiciau modur, ac yn ymhyfrydu mewn teithio pob cwr o Gymru. Roedd wrth ei fodd yn gwylio'r rasus beiciau modur ar y teledu, yn enwedig yr Isle of Man TT, a bu draw yno nifer o weithiau yn gwylio yn ystod ei ieuenctid. Roedd hefyd yn dilyn nifer fawr o chwaraeon, gyda diddordeb yn enwedig pêl-droed lleol yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Parhaodd i wylio pêl-droed a nifer o chwaraeon eraill tra'n brwydro ei salwch ac yn cael boddhad mawr wrth wneud.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol preifat yn yr amlosgfa ar y 4ydd o Ebrill, dan ofal y Parchedig Peter Thomas. Daeth ei deulu a'u ffrindiau agosaf at ei gilydd i dalu'r deyrnged olaf i ddyn cymdeithasol, llawn bywyd a gweithgar iawn. Mi fydd ei golled yn enfawr.

Carai'r teulu ddiolch i bawb a fu'n eu cefnogi yn ystod salwch Wynn, ac am eu haeloni gyda'u hamser a'u gofal. Hoffai'r teulu hefyd ddiolch i staff arbennig Meddygfa Padarn, yn enwedig y Nyrsus Cymunedol, a chymorth staff MacMillan ym Mron-glais.



**Mererid Davies, Llywydd Sioe Penrhyn-coch eleni, gyda rhai o enillwyr y Sioe - Tomos James, Steffan Gillies, Annie May James ac Elan Rowlands. Gweler y canlyniadau lleol ar y tudalen nesaf.**

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau oddi wrth mam-gu i Harry ac Ellie Dimmack, Garn Wen, ar eu canlyniadau Lefel A a TGAU. Pob hwyl i Harry ar ei gwrs yn Efrog ac Ellie ar ei chwrs yng Ngholeg Ceredigion.

Llongyfarchiadau i Siôn Wyn Hurford ar ei ganlyniadau TGAU a dymuniadau gorau ar ei gwrs lefel A. Bu Sion yn serenu yn Hen Linell Bell gydag Arad Goch yn ystod yr haf.



LLUN Keith Morris

**Gŵyl Coed Nadolig**
Thema'r ŵyl – a drefnir gan St Ioan- eleni yw PANTOMEIM ac fe'i cynhelir o ddydd Sadwrn 9fed hyd dydd Sul 17 Rhagfyr pan ddaw'r ŵyl i ben gyda chyngerdd carolau.

**Eisteddfod**
Dyddiadau Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2018 fydd nos Wener 28 a dydd Sadwrn 29 Ebrill.

**Croeso**
Croeso i Benrhyn-coch i'r Parchg Irfon Evans a Huw sydd wedi symud i Dregar, Garth dros dro.

**I'r Coleg**
Dymuniadau gorau i Lewis Morgans, Haulwen, Garth, ar ei gwrs yng Ngholeg Glynllifon, Caernarfon.



**Llongyfarchiadau i Alex Thorogood, Glan Ceulan, a John Carter a briodwyd dydd Iau 17eg Awst ym Maidenhead. Mae'r cwpl wedi setlo yn Reading, lle mae Alex yn gweithio fel bydwraig.**



**Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dafydd Erwan Davies, Llandre a Siân Rowlands, Llanfihangel-yng-Ngwynfa a briodwyd yn eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa ar Awst y 4edd. Maent wedi ymgartrefu yn y Ddôl Fach, Penrhyncoch.**

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Lowri a Huw Powell a'r teulu, Maesyrefail, ar farwolaeth tad-cu Lowri - W. J. Jones, Aberystwyth ar Awst 17 ym Mhlas Cwmcynfelyn yn 101 oed.

Cydymdeimlwn â Bethan Davies a'r teulu, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei hewythr, y Parchg Huw Jones (Y Bala gynt).

**Mrs Martha Edwards, Penrhyn-coch**
Ar 27 Mai 2017, yng nghartref gofal Hafan y Waun, bu farw Mrs Martha Edwards, un o frodorion hynaf Penrhyn-coch, yn 92 oed.

Cafodd ei geni yn 1924, yn un o ddeuddeg o blant Court Villa, sef merch i William Morgan oedd yn aelod o staff Plas Gogerddan yn nyddiau'r teulu Pryse, ac Anne Ellen, ei wraig.

Addysgwyd Martha yn Ysgol Gynradd yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch ac fe addolai'r teulu yn Eglwys Sant Ioan yn y pentref, yn unol â disgwyliadau teulu'r Plas. Wedi dyddiau ysgol bu'n gwasanaethu ar nifer o ffermydd lleol, cyn priodi ym mis Medi 1943 â Glyn Edwards, Dinas, Ponterwyd. Aethant i ffermio ym Maes Meurig, Pen-bont Rhydybeddau, ac yno y ganwyd eu merch, Eirian, ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yng nghanol y pumdegau trawyd Glyn â salwch prin a bu'n rhaid iddynt roi'r gorau i ffermio. Symudodd y teulu i Frogynin Ganol lle ganwyd eu mab, Lloyd, ac yn ystod y cyfnod hwn bu Glyn yn gweithio i'r Comisiwn Coedwigo.

Yn dilyn marwolaeth Glyn yn 1973 daeth y teulu i fyw i Maesnant, Maes Seilo, ac aeth Martha Edwards i weithio yn y Fridfa yng Ngogerddan. Codai yn oriau mân y bore a cherdded milltir a hanner i'r Plas erbyn pedwar o'r gloch, er mwyn glanhau'r swyddfeydd cyn i'r gwyddonwyr gyrraedd at eu gwaith. Am ymron i ddeng mlynedd olaf ei chyfnod yn y Fridfa fe wasanaethodd yn ben cogydd yn ffreutur y sefydliad. Erbyn hynny yr oedd wedi dysgu gyrru car, ond byddai'n dal i godi'n fore er mwyn cyflawni ei dyletswyddau. Yn ystod ei horiau hamdden byddai'n mwynhau gwaith llaw – gwau a gwnïo – a châi bleser mawr wrth goginio gartref hefyd.

Bu Martha yn weithgar a ffyddlon iawn yn Eglwys Penrhyn-coch ar hyd y blynyddoedd hyd nes i salwch ei goddiweddyd dair blynedd yn ôl. Yr oedd ganddi ffydd fywiol yn yr Arglwydd Iesu Grist a byddai'n cael modd i fyw wrth fyfyrio ar gynnwys y Beibl. Yn 1978, gwahoddodd gymdogion a theulu i ymuno mewn astudiaethau Beiblaidd yn ei chartref. Byddai'n edrych ymlaen at y seiadau hyn yn eiddgar, gan fynychu'r cyfarfodydd yn gyson wedi iddynt symud i Rhandir tua 1980.

Cafodd ei chladdu gyda'i gŵr ym mynwent Eglwys Sant Ioan ar 2 Mehefin 2017 yn dilyn cystudd hir. Y prif alarwyr oedd, Eirian a Lloyd, plant; Dai Rees Morgan, mab yng nghyfraith; Rhian, wyres, a'i gŵr hithau, Alwyn; Carwyn a Gethin, gorwyrion; hefyd ei brawd, John Morgan a'i chwaer, Dilys Binks.

**Diolch**
**EDWARDS.** Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr am y cardiau, y blodau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt adeg eu profedigaeth. Diolch hefyd i Selwyn Evans, yr ymgymerwr, am drefnu'r angladd yn fanwl a gweddus, ac i Feddygfa'r Borth a staff Hafan y Waun am bob gofal a charedigrwydd. Diolchir yn arbennig i'r Parchedig Lyn Léwis Dafis, Penrhyn-coch am ei ymweliadau cyson â Hafan y Waun ac am gynnal y gwasanaeth gydag urddas a graen.

**Maud Phillips – Teyrnged M.J.**
Ffrind annwyl oedd Maud Phillips i mi
A pleser bob amser oedd bod yn ei chwmni.
Methu talu'r gymwynas olaf iddi, oedd ofid i fi
Ond i'm cof daw cofion melus iawn amdani.
Yn aml iawn y byddai yn dwyn i gof am yr hyn a fu
Cofio am ei hamser yn byw yn y Penrhyn ynghyd a'i theulu.
Roedd cofion am y Penrhyn yn agos iawn at ei chalon
A byddai yn dal i gyfrannu at bethau yn y pentre yn gyson.
Bu Maud a Cis ar hyd y blynydde
Yn cerdded i'r Penrhyn i ymweld â ffrindie.
Ond er ei bod bellach wedi cerdded ei milltir olaf hi
Gwn ei bod yn awr yn cysgu yn dawel ym mreichiau yr Iesu.

**Brysia wella**
Dymuniadau gorau i Ruth Morgan, Ger-y-llan, sydd yn gwella ar ôl iddi gael damwain yn ddiweddar

**Sioe Penrhyn-coch – 2017**
Ar ddydd Sadwrn Awst 19, cynhaliwyd ein Sioe bentref yn Neuadd y Penrhyn, braf oedd gweld y byrddau yn llawn o geisiadau safonol a niferus. Mae ein dyled yn fawr i'r holl gystadleuwyr sydd yn ein cefnogi yn flynyddol, o geisiadau lleol ac hefyd tu allan y Plwyf. Mae hyn yn sicrhau parhad a safon ein Sioeau bach .

Pleser mwyaf oedd croesawu Mr & Mrs Marc Davies, Gilwern, Sir Fynwy, Llywyddion y Sioe am eleni. Merch o'r ardal yw Mererid sef Mererid Fferm Rhos-goch, Capel Madog. Cafwyd araith bwrpasol ganddi, a chyflwynwyd y gwobrau i'r buddugwyr. Mae aelodau Pwyllgor Sioe Penrhyn-coch, yn hynod o ddiolchgar am eu rhodd anrhydeddus i goffrau'r Sioe Mae hyn yn cael ei werthfawrogi yn fawr. Uchafbwynt y Sioe oedd cael y llu o blant ar y llwyfan i gynorthwyo Mererid i dynnu'r raffl.

**Enillwyr Lleol Sioe Penrhyn-coch**
Pwyntiau Uchaf yn Adran Llysiau - Mr Ceinion Jones, Penrhyn-coch
Arddangosiad Gorau yn Adran Llysiau – Mr Ceinion Jones,Penrhyn-coch
Llysieuyn neu Ffrwyth Di Siâp – Mr Tudor Gethin, Rhydypennau
Basged Orau o Lysiau – Mr Tudor Gethin, Rhydypennau.
Arddangosiad Gorau yn Adran Blodau – Mr Ceinion Jones, Penrhyn-coch
Arddangosiad Gorau yn Adran Cyffaith – Miss Meriel Ralphs,Penrhiwnewydd.
Arddangosiad Gorau yn Adran Cyffaith (Nofis) – Mrs Eirian Morgan, Penrhyn-coch.
Arddangosiad Gorau yn Nosbarth Coginio (M.Y.W) Mrs Wendy Reynolds,Penrhyn-coch
Arddangosiad Gorau yn Nosbarth Coginio (W.I) – Mrs Elizabeth Lloyd. Penrhyn-coch.
Arddangosiad Gorau Gwaith Llaw C – Mrs Felicity Broadhurst, Penrhyn-coch.
Pwyntiau Uchaf Gwaith Llaw Adran A – Miss Sharon Jones,Penrhyn-coch.
Pwyntiau Uchaf Gwaith Llaw Adran B – Mr Hywel Evans, Capel Dewi a Dr Clive Williams, Penrhyn-coch,
Pwyntiau Uchaf yn Nosbarth Trefnu Blodau – Mrs Glenys Morgan, Penrhyn-coch.
Arddangosfa Gorau Trefnu Blodau Adran Plant – Cadi Bowen – Jones, Penrhyn-coch
Arddangosfa Gorau Cylch Meithrin Trefeurig – Moli Tooze, Penrhyn-coch
Arddangosiad Gorau Cylch Ti a Fi – Elsi Stowers, Penrhyn-coch
Arddangosfa Gorau Clwb Gwyliau Gogerddan - Poppie
Arddangosfa Uned Brownies – Lucy Robinson, Penrhyn-coch
Arddangosfa Gorau Ysgol Gynradd – Mya James, Penrhyn-coch
Anifail Anwes Gorau ag eithrio Cwn – Annie May James, Penrhyn-coch
Ci neu Ast Orau – Steffan Gillison,Penrhyn-coch
Pwyntiau uchaf yn Ysgol Uwchradd – Llywelyn Bowen-Jones
Pwyntiau uchaf yn Nosbarthiadau Mel – Mr Bertie Jones, Bow Street.
Cwpan R.A.O.B.
Mrs Luned Ann Roberts, Penrhyn-coch.
Pwyntiau Uchaf yn y Sioe – Mrs Buddug Evans, Tyncoed, Llanilar.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i'r canlynol a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar: Ted Fenner, Plas Iorweth; John Davies, Bryntirion; Y Parchg Lyn Lewis Dafis, Y Ficerdy; Ceredig Evans, Glanaber; Connie Evans, Gwawrfryn. Gwellhad buan i bawb.

# Twrnament pêl-droed Penrhyn-coch



Rhai o aelodau y Tim dan 16 yn ystod y noson wobrwyo gyda'u tlysau ( canol) - Harri Rowe - Chwaraewr y Flwyddyn a Chwaraewr gorau dan 16 yn Nhwrnament Penrhyn-coch 2017. (cefn) Jack Barron - Sgoriwr mwyaf. Chwaraewr a wnaeth fwyaf o gynnydd ( wedi ei ddewis gan y chwaraewyr) - Aled Parry Evans ( absennol). Hefyd yn y llun mae rhai o Aelodau y Tim dan 16 Taylor Richards, Tomos Wilson, Kieran Martin, Owen Keyworth ac Owain Wilson. Mwy o luniau mis nesa'.

# DOLAU




**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i blant o ardal y Dolau.

Ffion Evans. Fronddel, wedi gwneud yn dda yn ei harholiadau Lefel A ac wedi dechrau cwrs Paramedic yng ngholeg Abertawe.

Glesni a Teleri Morgan, Pwll-glas, y ddwy hefyd wedi gwneud yn dda yn eu harholiadau nhw. Glesni wedi ennill Sialens Rhyngwladol Cemeg Caergrawnt ac wedi cael ei dewis i gynrychioli'r grŵp oedd wedi ennill y gystadleuaeth siarad cyhoeddus drwy Gymru adeg Eisteddfod yr Urdd eleni i fynd i Brwsel lle maent yn cael y cyfle i gysgodi Tom Jones, Cwmnantyreira wrth ei waith am ddiwrnod, ynghyd a chyfarfod Cymry eraill sydd yn gweithio yn y llywodraeth ym Mrwsel. Yn y llun gwelir Rhys Gittins (ffrind i Tom), Mared Evans (Aelwyd Hafodwenog) a Glesni Morgan (Ysgol Penweddig). Roedd Glesni a Mared wedi derbyn y wobr am y siaradwyr gorau yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus eleni.

Ceir hanes y daith yn y rhifyn nesaf.. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.



Llongyfarchiadau i'r Arglwydd Elystan- Morgan ar dderbyn ei Radd anrhydedd Doethur mewn Llenyddiaeth (D.Litt.) gan Brifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, Llambed. Fe'i gwelir gyda'r Is-Ganghellor Medwin Hughes

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Iau Gorffennaf 20fed yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Croesawodd y Cynghorydd Andrea Jones bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dri chynghorydd.

Braf oedd clywed bod cynlluniau ar gyfer Pont Rhiwarthen yn symud ymlaen.

Etholiad 2017- dim ond naw o gynghorwyr sydd ar y Cyngor ar hyn o bryd; mae yna un sedd wag.

Roedd dau fater cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor;

- Abercwmdolau, Capel Bangor – trosi ysgubor yn fwthyn gwyliau a gwaith cysylltiedig.
- Hen Garej Goginan – newid defnydd i lety gwyliau a gwaith cysylltiedig.

Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cynlluniau.
Derbyniwyd Dogfen Gefndir Cartref Gofal Preswyl Bodlondeb ac roedd y cynghorwyr yn unfrydol yn cefnogi cadw y cartref ar agor.
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned nos Iau Medi 21ain 2017 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

## Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion '17

**Cystadlaethau Llwyfan**

Dweud Jôc

Darllen darn heb atalnodau
Adrodd (gydag effeithiau sain)

Sgets - Castell Aberteifi 1176

Band Sied yr Ardd

Côr - unrhyw gân Ail Symudiad

**Cystadlaethau Gwaith Cartref**

Ysgol Gynradd: Llun Dwrgi

Ysgol Uwchradd: Blog Yr Arglwydd Rhys, wythnos cyn Eisteddfod Nadolig 1176 (hyd at 300 gair)

Brawddeg: Y Mwldan

Dysgwyr: Hysbys radio am Fae Ceredigion

Limrig: I ddechrau "Un noson mi welais y dwrgi"

Neges Drydar: Yn gwahodd Donald Trump i Aberteifi (hyd at 140 llythyren)

Trefnir gan Y Dwrgi

Arweinydd: Keith Henson

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw eich papur bro mewn amlen wedi'i atodi) erbyn Medi'r 29ain at: Jonathan Rees, Brithdir, Llangrannog, SA44 6RP

**Nos Wener Hydref 13eg**
**Neuadd Felinfach**
**Drysau 7.00 y.h.**
**Cychwyn 7.30 y.h.**
**Mynediad £3**

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# SYLWADAU PELLACH AR YR ENW BWSTRYD, AC AR RAI PETHAU ERAILL

**(Rhan Un)**

Fel rhywun sydd wedi bod â diddordeb mawr mewn enwau lleoedd ers amser maith, 'roedd yn ddiddorol gweld erthygl Vernon Jones, yn rhifyn mis Mai *Y Tincer*, am 'Esboniad ar darddiad yr enw Bow Street'. Er i mi symud i Ben-y-garn yn 2001, ac yna i Landre yn 2009, 'rwyf hefyd wedi bod yn ymchwilio i enwau lleoedd y pentrefi hyn ac yn yr ardal ehangach. Hoffwn, felly, gynnig rhai sylwadau ychwanegol ar y pwnc hwn.

Yn eu llyfr awdurdodol *Dictionary of the Place-Names of Wales* mae Hywel Wyn Owen a Richard Morgan yn cyfeirio at enwau Llundain yng Ngheredigion, megis 'Bow Street', 'Chancery', 'Temple Bar', 'Piccadilly' (a oedd yn hen enw ar 'Southgate'), ac eraill, ond barn yr awduron hyn ydyw efallai y mabwysiadwyd y fath o enw hwn mewn cysylltiad â throi prif ffyrdd y Sir yn ffyrdd tyrpeg yn ystod y 18fed ganrif. Gan ystyried hyn felly, mae'n werth nodi yn achos y ffordd tuag at Fachynlleth, lle mae 'Bow Street' wrth gwrs, dechreuodd y gwaith hwnnw yn sgil deddf a basiwyd ym 1770.

Mae'r *Dictionary* yn sôn hefyd am gred bod yr enw 'Bow Street' yn dod o ryw ddyn busnes a symudodd i'r ardal o Lundain, ac wedi cynnal ei 'swyddfa ynad' mewn tafarndy yno. Er nad oes ffynhonnell yn y *Dictionary* am yr hanes hwn, ymddengys gwybodaeth debyg ym 1886 yng nghylchgrawn *The Red Dragon*, lle mae George Brierley yn dyfynnu o'r cylchgrawn Saesneg *Tit-Bits*, am fasnachwr a ddaeth yn ynad heddwch yn Sir Aberteifi, a phob tro yr oedd galw arno i fynychu cyfarfod yr ynadon, dywedodd ei fod yn mynd i'w 'Bow Street' ei hunan.

Wrth reswm mae hwn yn debyg i'r hanes adroddwyd gan J. G. Williams yn *Bye-Gones* rai blynyddoedd ynghynt ym 1873, a nodwyd gan Vernon yn ei erthygl. Yn wir, ym 1981 cyfunwyd y ddau ddarn yn un gan Cynric Mytton Davies mewn erthygl yn y cylchgrawn *Country Quest*, er nad oes tystiolaeth bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt, a throdd 'Mr Jones' yn fasnachwr o Lundain a wnaeth ymddeol i Frysgaga!

Nid Vernon yw'r cyntaf i sôn am yr enw 'Bow Street' yn *Y Tincer* wrth gwrs, nac am chwedl y llys ynad heddwch yno fel ei darddiad. Yn ôl ym 1977 ysgrifennodd Huw Huws am bethau, yn ailddweud hanes "Mr Jones Prys Gaga" am iddo egluro wrth y cwnstabl y byddai ei swyddfa yn y 'Black Lion' yn cael ei henwi yn 'Bow Street', yr un fath â'r swyddfa ynad yn 'Bow Street' Llundain y darllenodd amdani yn y papurau newydd o'r adeg; y cwbl a roddwyd gan J. G. Williams yn *Bye-Gones*, ond eto heb sôn amdano na'r cylchgrawn fel y ffynhonnell. 'Roedd golygydd *Y Tincer* ar y pryd, Tegwyn Jones, hefyd yn cynnig gwybodaeth ychwanegol o lyfrau rhent Ystâd Gogerddan 1793, am Erasmus David yn talu rhent am fwthyn a adeiladwyd ganddo "at Bow Street".

Dilynwyd y pytiau hyn gan Gwyn Jenkins ac Alwyn Roberts ddechrau 1978, lle



Gloster Hall, Penrhyn-coch (Plas Gwyn heddiw)



Black Lion, Bow Street, 1910 - llun John Meurig Edwards




Cwmbwa

oeddynt yn rhoi mwy o fanylion am hanes llysoedd 'Bow Street' Llundain, yn ogystal â chynnig cofnod bedydd William mab i Jenkin ac Ann Thomas 'Bow Street' ym 1777, sydd, hyd at hyn, yr ardystiad cynharaf o'r enw lle, ac yn nodi bodolaeth map Ystâd Gogerddan o 1787 sy'n dangos pedwar tŷ gyferbyn â safle'r 'Black Lion', ond heb ddangos y dafarn, gyda'r enw "Bow Street" wedi'i ysgrifennu'n ddestlus wrth eu hymyl. 'Roedd Gwyn Jenkins ac Alwyn Roberts hefyd yn dadansoddi'r hanes a gofnodwyd gan J. G. Williams, ac ailadroddwyd gan Huw Huws, am sut y cafodd "this dirty little hamlet", fel y disgrifwyd 'Bow Street' yn *Bye-Gones*, ei enw Saesneg.

Ymchwiliodd y ddau y ffaith bod Williams wedi cysylltu enwi'r pentref â blwyddyn brwydr 'Waterloo', sef 1815, ac yn honni bod yr hanes wedi dod o fab y gŵr bonheddig a oedd yn gyfrifol. Wrth iddynt edrych ar yr hanes daethant i'r casgliad mai'r 'Mr Jones' dan sylw oedd William Jones, Dôlcletwr a Brysgaga, a petasai wedi bedyddio 'Bow Street' â'i enw, digwyddodd hynny ymhell cyn i 1815. Nodasant hefyd bod y cyfeiriad at y 'Black Lion' yn amheus, gan fod tystiolaeth mapiau yn awgrymu i'r tafarndy presennol gael ei adeiladu rhywbryd rhwng 1823 a 1843, ac felly nid oedd yn bodoli ym 1815.

'Roedd llythyr di-enw hefyd wedi ymddangos yn *Y Tincer* ym 1978, yn clodfori cywirdeb hanes 'Mr Jones' Brysgaga, ac yn esbonio bod John Hughes, neu "Jac y Siop", a anwyd ym 1883 ac a oedd yn dad i'r llythyrwr, wedi adrodd yr un stori am "Ustus Heddwch mewn llys barn" yn 'Bow Street' yn aml. Tybiodd hefyd a oedd yr enwi wedi digwydd "allan o sens o hiwmor neu mewn dirmyg?" 'Roedd hyd yn oed yn cynnig fersiwn Cymraeg ar yr enw, yn ei gyfieithu fel "Stryd yr Ymgrymiad"!

Ym 1991 ysgrifennodd y




diweddar Eddie Jones, cyn-brifathro Ysgol Rhydypennau, am yr enw yn rhifyn 30 o'i gyfres 'Adnabod Ardal', yn wir ei rifyn olaf o'r gyfres honno ydoedd, lle 'roedd yn ailddweud rhai manylion o'r erthyglau cynharaf, ac hefyd yn herio rhai agweddau o'r hanes. Yn enwedig nad oedd yn bosibl mai'r 'Black Lion' oedd y dafarn yn y chwedl gan nad oedd yn bodoli yn ystod yr adeg iawn, ac mai oddi wrth fab yng nghyfraith William Jones y cafodd J. G. Williams yr wybodaeth gan nad oedd mab ganddo, a hefyd nid ym 1815 oedd yr enwi ond mwy na thebyg y derbyniodd yr hanes gan Williams tua'r flwyddyn honno.

Yn yr un flwyddyn, sef 1991, yn wir yn yr un mis, ond yn *Papur Pawb* fel rhan o'r golofn 'Slawer Dydd', aeth Gwyn Jenkins ati i ailadrodd holl hanes William Jones, Dôlcletwr a Brysgaga, gan gynnwys ei gysylltiad ag enwi 'Bow Street', fel y cofnodwyd yn *Bye-Gones*. Ac yn fwy diweddar, yn ei lyfr am hanes Llandre o 2010, sef *Llanfihangel Genau'r Glyn: The History of a Community*, soniodd y diweddar Randall Enoch am yr enw 'Bow Street'. Unwaith eto adroddodd am fedydd William Thomas ym 1777 ac am Erasmus David yn talu rhent am ei fwthyn ym 1793, yn ogystal ag am stori William Jones, fferm Brysgaga, yn enwi ei swyddfa yn y 'Black Lion' ym 1815, ond i gyd heb gydnabyddiaeth o'i ffynonellau.

Yn ddiddorol mae Randall hefyd yn siarad am gred David Jenkins bod cysylltiad rhwng yr enw 'Bow Street' â dyn o'r enw Meredudd, mab 'y Bwa Bach', a'r ddamcaniaeth bod Meredudd wedi rhoi rhan o'i enw i'r pentref. Tad Meredudd, gyda'r llysenw rhyfedd yn ddynodi efallai mai efe oedd yn cynhyrchu bwâu saethu, oedd gŵr cenfigennus Morfudd Benfelen un o gariadon y bardd Dafydd ap Gwilym, ac mae'n debyg mai casglwr trethi yng Nghwmwd Geneu'r Glyn ym 1357/8 oedd Meredudd y mab.

Ond er i Randall gyfeirio at lyfr David Jenkins o 1992, *Bro Dafydd ap Gwilym*, fel ffynhonnell, lle mae gwybodaeth am 'y Bwa Bach' a'i fab Maredudd, nid oes sôn amlwg yno am darddiad yr enw. Mae'n wir fod David Jenkins wedi cysylltu 'y Bwa Bach' â Chwmbwa, fel y nodwyd yn ei erthygl 1936, 'Enwau Personau a Lleoedd yng Nghywyddau Dafydd ap Gwilym', syniad a gefnogwyd yn ei dro gan R. Geraint Gruffydd yn ei bapur a draddodwyd ym 1989, a elwid 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', lle mae'n cyfeirio at enw gwreiddiol y ffermdy fel "Cwm Bwa Bach". Hwyrach, felly, gall rhai geisio gweld cysylltiad rhwng y ddau enw lle?

Dylwn nodi yma hefyd fod, ym 1972, cyn i'r darnau uchod ymddangos yn *Y Tincer* a *Papur Pawb*, trafododd Howard C. Jones darddiad yr enw yn ei golofn yn y *Cambrian News*, o dan ei lysenw 'Will O' Whispers'. Yma 'roedd yn beio'r Wasg, oherwydd bod 'Mr Jones' wedi darllen am 'Bow Street' Llundain yn ei bapur newydd cyn iddo fabwysiadu'r enw ar gyfer ei swyddfa ynad. Mae'n amlwg bod ysgrif J. G. Williams yn ffynhonnell i 'Will O' Whispers', ond ychwanegodd Howard C. Jones sylw mai enw'r orsaf rheilffordd yw 'Bow Street' (a agorodd ym 1876) ac yn sôn am awgrym swyddogol i newid yr enw i 'Bowstryd' ym 1909.

Er na roddwyd manylion yn erthygl 'Will O' Whispers', mae'n debyg mai cynnig gan Swyddfa'r Post i newid yr enw ydoedd, yn mynnu nad oedd llythyron yn cyrraedd pen eu teithiau, pan nad oedd enw'r Sir yn ymddangos arnynt, oherwydd y dryswch â'r un enw yn Llundain, neu fod pobl yn meddwl mai ffordd oedd 'Bow Street'. Ystyriodd Cyngor y Dosbarth Gwledig y cynnig mewn cyfarfod ym 1909 lle penderfynon anfon y mater at gyfarfod Plwyf Broncastellan, gan mai yn y plwyf sifil hwnnw oedd 'Bow Street' ar y pryd, ond gyda'r argymhelliad y dylid newid yr enw i 'Broncastellan' yn hytrach na derbyn y ffurf ledryw 'Bowstryd'!

Mae'n werth nodi yma yn hanesyddol mai ym Mhlwyf Llanbadarn Fawr, ac yn nhrefgordd (neu dref ddegwm) Clarach, oedd safle'r 'Black Lion' a'r tai cyfagos, tra bod y tai i'r gogledd yn nhrefgordd Broncastellan, ond eto ym Mhlwyf Llanbadarn Fawr. Erbyn y 1840au, pan luniwyd map degwm Plwyf Llanbadarn Fawr, 'roedd tai 'Bow Street' wedi ymestyn tuag at ffin y plwyf, megis Nant (yr) Afallen, ond eto heb ei chyrraedd, ar y tir gyferbyn â 'Cae Bow Street' (lle saif tai Tregerddan 'nawr), ac 'roedd rhagor o dai i'r gogledd o'r ffin hefyd, sef y bythynnod ar y rhiw sy'n arwain o'r nant, yn nhrefgordd Tir-y-mynach ym Mhlwyf Llanfihangel Genau'r-glyn.

Mae Vernon yn sôn am y tai hyn a adeiladwyd hyd at Benrhiw, ar dir Caergowydd, ac mae map o 1834 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ymysg cofnodion Ystâd Trawsgoed, sy'n dangos yr holl blotiau ar gyfer y bythynnod ar hyd y rhiw hon cyn iddynt gael eu hadeiladu, a chydag "Nant y fallen cott" ar y pryd wrth ymyl y nant ei hunan (lle mae'r Spar a Glan-nant heddiw). Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol hefyd gopi o fap Vernon, ac un arall o 'Caer gowydd' mewn cyfrol o fapiau Ystâd Trawsgoed, y ddau yn dangos yn glir

lleoliad gwreiddiol y tyddyn ger yr afon.

Mae'n ddiddorol felly ar fap degwm Plwyf Llanfihangel Genau'r-glyn, sy'n fwy ddiweddar na'r mapiau fy mod newydd nodi, bod safle 'Caer Gowydd' wedi symud ond rhywfaint i'r dwyrain i ganol y caeau. Mae Vernon yn siarad am y symudiad wedyn, i fyny llethrau'r Foel Goch i lecyn presennol 'Caergywydd', ond mae'n debyg bod hwn wedi digwydd ychydig cyn adeiladu'r rheilffordd, gan fod map arall o 1861 ar gael o'r rheilffordd arfaethedig heb ddangos y fferm ar yr hen safle.

Beth bynnag, yn ei hunangofiant *The White Lanes of Summer* (a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Haydn Morgan fel *Y Tincer Tlawd*) a gyhoeddwyd yn y 1970au, dywedodd Tom Macdonald fod rhai yn cysylltu'r enw 'Bow Street' â'r 'Bow Street Runners', ond nid oedd yn eu credu. Hefyd, damcaniaeth gan eraill oedd mai llygriad o 'Bulstrode' ydoedd, a bod hwn yn enw ar ryw oruchwyliwr ar Ystâd Gogerddan. Mae Vernon yn sôn am y straeon hyn, er iddo siarad am rywun o'r enw 'Boughstroyd' fel asiant Ystâd Gogerddan. Mae'n debyg bod rhyw gof pell yma am 'Bulstrode', oblegid Syr Bulstrode Whitelock oedd tad mam Syr Carbery Pryse, Gogerddan, ond 'roedd hyn yn ôl yn yr 17eg ganrif, ymhell cyn yr adeiladwyd bythynnod 'Bow Street'.

Gyda llaw, J. G. Williams, sef awdur y pwt am 'Bow Street' yn *Bye-Gones*, oedd John Graham Williams, a oedd, ar un adeg, yn asiant tir i Ystâd Gogerddan. 'Roedd yn byw yn 'Gloster Hall', cyn iddo adael yr Ystâd a symud i Abererch ger Pwllheli. Ganed Williams yn Nhreffynnon, Sir y Fflint, ond collodd ei fab 11 mlwydd oed, Beddyn ap Ioan Williams, a'i wraig gyntaf, Jane, tra ei fod yn gweithio i'r Ystâd. Ailbriododd ef cyn iddo fynd 'nôl i'r gogledd, a bu farw yn Llaneurgain ym 1879 yn 70 oed.

Mae Iwan Wmffre yn rhoi braslun o'r straeon uchod a'u ffynonellau yn ei astudiaeth fanwl *The Place-Names of Cardiganshire* ym 2004, a hefyd mae'n awgrymu mai Rhyd-y-castell oedd yr enw cynharaf am 'Bow Street'. Ond fel y nodwyd eisoes, ar y brif ffordd tuag at Fachynlleth oedd y 'Bow Street' gwreiddiol, tra bod y rhyd, a'r tyddyn a oedd gerllaw a elwid Rhyd-y-castell, ar yr hen ffordd tuag at Langorwen. Felly, hyd yn oed bod 'Bow Street' a Rhyd-y-castell yn agos at ei gilydd, nid yr un lle oeddynt erioed. Yn llyfrau rhent Ystâd Gogerddan, ynghanol y 18fed ganrif, newidiodd enw'r tyddyn o "Rhydycastell" i "Bryn y Castell", ond gyda'r un tenant, gall felly ddynodi yr adeiladwyd ffermdy newydd uwchben y tyddyn gwreiddiol, ar y bryn cyfagos, a newidodd yr enw fel canlyniad.

**Martin Robson Riley**
(i'w barhau)

# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
*Medi*
24 10.00 Oedfa Menter Gobaith – Capel y Morfa – Y Parchg Eifion Roberts

*Hydref*
1 Noddfa
8 Lyndon Lloyd
15 Gweinidog
22 Adrian P. Williams
29 Oedfa yr ofalaeth

**Priodas**
Yn Eglwys Llanychaearn, ar 15fed o Orffennaf priodwyd Carwyn Thomas, Bronheulog, ac Amy Binks o Benrhyn-coch. Dymuniadau da iddynt a phob hapusrwydd yn eu bywyd priodasol.

**Pen blwydd a phasio prawf**
Ar ddydd ei ben blwydd yn un ar hugain cafodd Jac Vaughan Smith, Y Bwthyn, Cefn-llwyd newyddion da – ei fod wedi pasio fel gyrrwr i Reilffordd Cwmrheidol. Ef yw y gyrrwr trên stem ieuengaf ym Mhrydain. Bu yn siarad am y profiad gyda Shan Cothi ar ei rhaglen fore Iau 13 Gorffennaf.

**Sioeau**
Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n llwyddiannus yn y sioeau yn ystod yr haf. Trystan Davies, Llwyngwyddil, yn adran y defaid; Megan a Sian Evans, Llain y Felin yn adran crefftau, arlunio a llysiau; a Gruffudd ap Llywelyn, Rhydyceir, (isod) ar ei lwyddiant yn y Sioe Frenhinol yn adrannau crefft a choginio ac yn Sioe Penrhyncoch.





Jac Vaughan yn cael ei longyfarch gan Llŷr ap Iolo.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

## DOL-Y-BONT

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu Bryndderwen ar farwolaeth chwaer John, sef Mrs. Vera Lewis o Taliesin, a fu farw fis Gorffennaf. Ganed Vera yng Nghilolwg, Y Borth, yn un o wyth o blant. Bu farw ei thad – oedd yn ffermwr – pan oedd yn ifanc iawn. Aeth Vera i ysgol gynradd Rhydypennau ac ymlaen i astudio yn Ysgol Ramadeg Ardwyn. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu hi a'i chwaer Emily yn gweithio fel merched Byddin y Tir. Yn nes ymlaen symudodd i teulu i Fryndderwen. Yn ystod ei hamser yno y cyfarfu Vera â'i darpar ŵr Tom a fyddai'n ymweld â'r fferm yn aml i ddosbarthu nwyddau.

Priododd Vera a Tom ym 1960, gyda Vera'n dewis gwisgo ffrog las tywyll fel un a hoffai fod yn wahanol! Roedd eu cartref yn Waun-fawr lle 'roedd Tom yn rhedeg 'Siop y Waun' tra oedd Vera'n brysur yn magu eu plant Emyr ac Iona.

Symudodd y teulu i Dre Taliesin a dechreuodd Vera weithio yng Nghaffi Cletwr lle byddai wrth ei bodd yn sgwrsio â phobl gan ddod yn ffrindiau â phawb.

(seiliedig ar deyrnged i Vera gan ei merch Iona)

Yn ystod yr haf bu farw David Simpson, Running Water a Mike Watson, New House, y ddau wedi byw yn y pentref ers rhai blynyddoedd. Cydymdeimlwn â theuluoedd y ddau.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Sŵ Gerallt, Leri, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 80 ddiwedd fis Gorffennaf.

**Llywydd**
Dymunwn yn dda i Gareth Hughes, Y Warren, wrth iddo ymgymryd â llywyddiaeth Clwb y Llewod yn Aberystwyth. A diolch i'r cyn-lywydd, Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt am ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

**Marwolaeth**
Yn dawel yn ei gartref ar 12 Awst bu farw Ken Evans, Tynsimdde. Cydymdeimlwn â Joy a'r teulu ar eu profedigaeth. Cynhaliwyd angladd Ken yng Nghapel y Babell gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parchg Elwyn Pryse.


Dymuna Mrs. Joy Evans ddiolch am bob arwydd a gydymdeimlad a chymorth a dderbyniodd yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr Ken. Diolch yn fawr hefyd i bawb a gyfranodd tuag at Gronfa Nyrsus Cymunedol y Borth a'r Uned Diffyg Anadl yn Ysbyty Bron-glais er cof am Ken.

**Diffibriliwr**
Erbyn hyn mae'r pentref wedi derbyn diffibriliwr fel adnodd gogyfer â'r trigolion. Mae wedi ei leoli drws nesaf i'r hysbysfwrdd yng nghanol y pentref. Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghapel Y Babell er mwyn i'r trigolion gael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio ac i ateb unrhyw gwestiynau a oedd ar feddwl y pentrefwyr.

# Adolygiad

Richard E. Huws: *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch), Ceredigion*. tt. 100. Cyhoeddwyd gan yr awdur. £9.99.

I Gardi o ogledd y sir, sy'n ymfalchïo yn y ffaith honno, dyma berl o gyfrol sy'n rhoi o dan y chwyddwydr anial dir 'Eleirch', chwedl Dafydd ap Gwilym, ond sy'n fwy cyfarwydd i ni heddiw efallai fel ardal Bont-goch. Ond bydd apêl y gyfrol yn lletach o lawer na ffiniau'r ardal fynyddig honno y trafodir ei henwau lleoedd yma. Yn dilyn 'Cyflwyniad' byr ond cynhwysfawr, eir ati i restru enwau tai a ffermydd yr ardal yn nhrefn y wyddor, a hynny â manylder cyfewin a chysáct a olygodd yn ddiau oriau lawer o waith i'r awdur, ac na ellir yma ond cyfeirio at rai o'r amryfal bethau a aeth â bryd yr adolygydd hwn




Un peth â'm trawodd oedd amlder yr elfen 'Tyddyn' yn yr enwau a drafodir, ond elfen a gollwyd yn aml yn nhreigl y blynyddoedd, megis [Tyddyn] Bryn y barcud, [Tyddyn] Bwlch y Pant Mawr (Moelgolomen yn ddiweddarach), [Tyddyn] Llety Ifan Hen, [Tyddyn] Nant Perfedd, a llawer un arall. Wrth grwydro'n hapus trwy'r tudalennau, agorwyd fy llygaid sawl tro i wir ystyr ambell enw digon cyfarwydd i mi, fel er enghraifft yr enw Troedrhiwseiri. Dychmygais erioed i hwn unwaith fod yn gartref i deulu o seiri – tad a dau neu dri o'i feibion, efallai, yr oedd eu gwaith yn gyfarwydd i bawb yn y fro. Ond na, nid felly o gwbl! 'Seri', nid 'seiri' sydd yma, sef 'llwybr wedi ei balmantu' yn ôl *Geiriadur y Brifysgol*. Daeth goleuni tebyg i'm rhan sawl tro wrth bori yn y gyfrol ddiddorol hon.

O ddiddordeb personol i mi oedd cofnod yr awdur am Gapel Sbaen neu Gapel Tabor, capel yr Annibynwyr a adeiladwyd 'yn ymyl y ffordd sy'n arwain o chwarel yr Hafan at Nant-y-moch' nad yw'n bod bellach, er bod carreg erbyn hyn yn nodi'r llecyn lle safai gynt. Yno mewn eisteddfod leol o gwmpas dechrau'r ganrif ddiwethaf y cyfarfu fy nhaid a mam-gu ('taid' am mai un o wlad Llŷn ydoedd), priodi'n ddiweddarach, ac mae'r gweddill yn hanes. Hyfryd hefyd i mi, o dan 'Llawr-y-glyn', oedd gweld cyfeiriad at y ddwy chwaer, Jane Evans a Margaret Mary Evans, a fu'n byw yno. Am flynyddoedd lawer bu Miss Evans (Margaret) yn cerdded yn ddyddiol ac ym mhob tywydd, dros y bryniau o Bont-goch i Ysgol Trefeurig, lle gofalai am addysg y plant iau, a braint i mi oedd cael bod yn un o'r rheini yn ystod ei chyfnod hi.

Cymeriad arall y telir teyrnged haeddiannol iddi yn y gyfrol hon yw'r diweddar ryfeddol Hilda Thomas, Cwmere, 'un a fu'n gyfarwydd iawn i'r genedl', meddir yma, 'oherwydd ei chyfraniadau cyson i *Stondin Sulwyn* ar Radio Cymru . . . Gweithiodd yn ddiflino dros ei milltir sgwâr a bu ei chyfraniad i Eglwys St. Pedr, Elerch a *Phapur Pawb* yn amhrisiadwy'. Gwir y gair. Coffa da am wraig arbennig iawn.

Ceir cyfeiriadau lu at amrywiaeth lliwgar o gymeriadau eraill a fu'n rhan o wead cyfoethog yr ardal a gwmpasir mor drylwyr yn y gyfrol, ac y mae oriau o ddifyrrwch pur yn aros y sawl a fyn oedi yma ymhlith yr enwau lleoedd a groniclir, a'r straeon, chwedlau a'r traddodiadau sydd ynghlwm â llawer ohonynt. Dyfynnir hefyd o waith beirdd lleol megis y diweddar J.R. Jones, Huw Huws a J. Ll Nuttall.

Brithir y gyfrol â lluniau o adeiladau, murddunod, mapiau (un 'bras fap' arbennig o ddefnyddiol o waith Meleri Mair). A llawer mwy, ac y mae iddi glawr hynod o ddeniadol o waith ein artist lleol, Wynne Melville Jones.

Llongyfarchiadau i Richard ac i bawb a fu â llaw yng nghynhyrchiad y gyfrol nodedig hon.

**Tegwyn Jones**

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**Suliau'r Garn**
**10 a 5**
*Medi*
24 10.00 Oedfa Menter Gobaith – Capel y Morfa – Y Parchg Eifion Roberts

Suliau Noddfa
Hydref
1 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Y Garn yn uno.
8 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
15 Uno yn y Garn am 10.00. Diolchgarwch.
22 Oedfa am 2.00. Gweinidog.
29 Oedfa Undebol am 10.00 ym Methel, Tal-y-bont

**Genedigaeth**
Llongyarchiadau i Andrew a Vari Jenkins, Caerdydd ar enedigaeth bachgen, Osian Wyn, ym mis Gorffennaf; brawd bach i Gruffydd. Ŵyr arall i Geraint a Barbera Jenkins, Bryncastel

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Ffion Wyn Roberts, 10, Carreg Wen, ar ei chanlyniadau Lefel A. Dymuna'r teulu bob lwc iddi wrth iddi ddilyn ei chwrs yng Ngholeg Met Caerdydd. Hefyd, braf clywed am lwyddiant Ffion yn derbyn gwobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn 2017 gan Ceredigion Actif mewn partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Ceredigion. Mae Ffion yn rhoi llawer o'i hamser i weithgareddau o fewn yr ysgol a'r gymuned. Derbyniodd Ffion ei gwobr gan Osian Roberts adeg twrnament pêl-droed Bow Street ddechrau'r haf.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Amlyn Ifans wrth iddo yntau dderbyn gwobr fawreddog 'Hyfforddwr y Flwyddyn' gan Gyngor Chwaraeon Ceredigion, yn sgil ei waith diflino gyda Chlwb Pêl-droed Bow Street.



**I'r coleg**
Dymuniadau gorau i Jordan Lloyd Jones, Maesawelon, Pen-y-garn, ar ei gwrs yn GAMTA, Caerdydd. Agorodd GAMTA - Coleg Theatr Cerddrol sydd wedi ei leoli yn yr Alban - safle yng Nghaerdydd yn Ionawr 2015.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Freda Morris, Bryn Meillion ar farwolaeth brawd yng nghyfraith.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Elgan a Menna Davies, Maes Afallen, ar enedigaeth ŵyr arall - ganwyd Sosefo Dafydd Tapa'atoutai-Uhi ar Orffennaf 1af i Gwenno a Polu yng Nghaerdydd.

**Brysiwch wella a chydymdeimlad**
Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs. Pat Evans, 93 Bryncastell, a fuodd yn ysbyty Bron-glais ers dechrau mis Awst ond sydd erbyn hyn yn treulio cyfnod byr yng nghartref Tregerddan. Cydymdeimlir a'r teulu hefyd ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith Mr. Ken Evans, Tynsimdde.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Nos Lun, 11 Medi, cynhaliwyd noson agoriadol y gangen ar gyfer tymor newydd 2017–18. Wedi i bawb gael cyfle i ymaelodi am y flwyddyn, croesawodd y Llywydd, Lila Piette, yr aelodau i'r cyfarfod. Yna, cyflwynodd ein siaradwr gwadd, sef Carwyn Lloyd Jones, sydd wedi dod yn dipyn o seléb yn ddiweddar yn sgîl ei lwyddiant yn y gyfres deledu *Cabanau yn y Gwyllt* ar Sianel 4.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am ei waith yn cynllunio ac adeiladu 'Llygad y Ddraig', ei gaban arbennig ar gyfer cystadleuaeth i lunio gwesty 'dros dro' i ddathlu Blwyddyn y Chwedlau. Rhoddodd Carwyn amlinelliad o'r broses – o'r syniad a'r model cychwynnol, adeiladu'r sgerbwd gan gynnwys ffenest 'llygad y ddraig', llunio'r gwely crwn, symudol, yn ogystal â chegin ac ystafell ymolchi chwaethus gan ddefnyddio llechi Cymreig. Roedd y cyfan yn gampwaith yn wir – a does dim rhyfedd mai Carwyn enillodd y gystadleuaeth, ar sail ei gynllunio gwreiddiol a dyfeisgar a'i waith fel crefftwr eithriadol o ddawnus.

Yn dilyn sesiwn bywiog o gwestiynau, diolchwyd i Carwyn gan Mair Lewis. Enillwyd y raffl gan Eirian Dafis, ac yna mwynhawyd danteithion amrywiol a blasus wedi'u paratoi gan rai o aelodau'r pwyllgor, dan ofal Ann Jones a Margaret Roberts.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Lun, 9 Hydref, am 7 o'r gloch pan fyddwn yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol i gael noson o ffilmiau yn y Drwm ac yn cael cyfle i weld yr arddangosfeydd amrywiol sydd yno ar hyn o bryd.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Marian (828662).



Barbeciw Tregerddan

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Aled Myrddin, arweinydd Côr Meibion Machynlleth, am fuddugoliaeth y Cor yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Mon. Bydd cyfle i glywed y cor mewn cyngerdd ym Methel, Aberystwyth ar Fedi 23 – gweler y dyddiadur.

Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Gaerwen, ar ddod yn gyntaf ar y delyneg yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Elin Haf, Bryncastell, raddiodd mewn Saesneg a Drama yn Ngholeg Goldsmith, Llundain.

**Croeso**
Croeso i Sara a Sion sydd wedi symud i 1 Penrhiw.

**Maud Phillips 1922- 2017**
Ar ôl bod yn dihoeni ers tro hunodd fy nghymdoges hoff yn gynnar fore Sadwrn 26 Awst yng Nghartref Tregerddan yng ngolwg ei chartref yn 95 oed. Mae'n briodol mai yno y 'daeth i ben deithio byd', gan iddi yng nghwmni Cis ei gŵr, fod yn deyrngar iawn i'r Cartref yn oedfa'r Sul a phob gweithgarwch yno. Gwerthfawrogai'r gofal ardderchog a gafodd gan Elaine ac aelodau'r staff.

Maud a'i hefeilles Megan (marw 2013) a aned 23 Ionawr 1923, oedd plant hynaf Martha o hen deulu Jamsiaid, Garth, Penrhyn-coch, a'i gŵr John Thomas, 'Jac Llanbadarn'. Ganed Rhodwen a Mair yn

ddiweddarach a braf oedd cael sgwrs gyda Mair 94 oed yn angladd ei chwaer. Bu'n weddw ers degawdau wedi colli'i phriod y Parchg. Watcyn Williams, gweinidog Presbyteraidd. Pan oedd Maud yn blentyn symudodd ei rhieni a'i chwiorydd i Ferndale a'i gadael hi yn y Garth i'w magu gan Lisi chwaer gloff ei mam, ei thad-cu a'i mam-gu ac aelodau eraill y teulu. Y mae'r cyfaill Wynford Evans sy'n byw yn y dre drwy Lisi ei fam o'r un cyff.

Bu'r Garth, ysgol y pentref ac yn arbennig capel Horeb yn bwysig iawn i Maud ar hyd ei hoes, a Menna, merch y gweinidog, O.E.Williams, a phriod Dr. David Jenkins, oedd ei ffrind pennaf. Bu'n gweld Menna yn Hafan y Waun ac er bod ei meddwl ar chwâl roedd yn nabod Maud – honno oedd y sgwrs olaf yn y byd hwn. Roedd yn ffrind hefyd i blant Morganiaid Cwrt Villa yn enwedig Ruth oedd yr un oed a hi. Bu'i chysylltiad yn hir â'r diweddar Gweneira'r Efail a Meirwen sy'n weithgar o hyd. Er symud o'i chynefin yn ifanc daliodd Maud i gyfrannu i Horeb, y Neuadd a'r Eisteddfod.

Bu Maud yn forwyn yn Nhynparc, Llandre ac yn rhan o Fyddin Merched y Tir a nifer o ferched yn byw yn yr Hostel, Afallen Deg erbyn hyn. Bu'n cydweithio gydag Anti Katie chwaer fy nhad a Gwyneth Cerrig Mawr, Tal-y-bont.. Bu wedyn yn forwyn Nantcellan Clarach gyda Dr. Rhichard Phillips,ei wraig a'u merched Buddug, Rhiannon a Teleri a fu'n cysylltu â Maud am flynyddoedd.

Cyfarfu Maud â gwas Ffosygrafel, Cecil George Phillips, a fagwyd un ochr i afon Cletwr, Tre'r-ddôl pan oedd Mam a'i theulu yn byw ar draws yr afon yn Stryd y Felin, a byddai plant y ddau deulu yn cerdded i Ysgol Llangynfelyn. Priodwyd Maud a Cis yng nghapel Noddfa, Medi 1946, gan y diweddar Barchg Ted Lewis Evans, a chyn colli Cis ac i iechyd Maud ddirywio buont yn selog ar y Sul ac yn rhan o bob gweithgarwch yno, fel gyda'r Cartref, Bore Coffi Afallen Deg, y sioe, popeth oedd yn digwydd yn y Neuadd, a dosbarthu'r 'Tincer' yn Nhregerddan. Pob un o'r 60 tŷ yn ei dderbyn ond dim i 16 y mae Gwenda'n mynd bellach. Roedd hynny'n bryder i Maud yn ogystal â'r newid yn natur ac agwedd pobol. Roedd yn fwy trist na thristwch gweld darn o'r ffens gyferbyn â chartref Maud wedi ei fandaleiddio y diwrnod y bu farw.

Cartrefodd Maud a Cis ym Mlaenddol ar ôl priodi a ganed Alun a Dilwyn yno cyn i'r teulu symud i 8 Tregerddan yn Chwefror 1952, lle ganed Gwynant. Bu'r ddau'n gyfeillion cefnogol i Mam a Nhad a chymdogion eraill ac wedi colli Nhad a Mam yn ei chornel byddai Maud yn galw'n ddyddiol. Roedd Gwenda a minnau a Kathleen yn galw gyda nhw wedi dychwelyd i Dregerddan. Bu'n ffrind agos iawn i Eunice Fleming, y ddwy'n cerdded i Noddfa a mynd ar y bws i'r dre ac i Ddolgellau a Phorthmadog yn gyson. Minnau'n mynd a Cis i fynwent Llangynfelyn at fedd ei dad a'i frawd ac i Dre'r-ddôl a dysgu llawer am y pentref a'r hen gyfeillion.

Wrth gydymdeimlo gydag Alun, Dilwyn, Gwynant a'u teuluoedd, perthnasau eraill a llu o gyfeillion rwy'n cloi gydag englyn hyfryd y Parch.W.Rhys Nicholas, sy'n un addas wrth ddiolch am Maud.

**MAM**

Gwên siriol oedd ei golud – a gweini'n
ddi-gŵyn
Oedd ei gwynfyd,
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd,
A lle bu hon mae gwell byd.

**W.J.Edwards**

**Capel y Garn**

**Gwibdaith**

Dydd Sul, Gorffennaf 9fed aeth llond bws o aelodau a chyfeillion ar ymweliad pleserus â'r Ysgwrn, Trawsfynydd. Amheuthun oedd y cyfle i weld Canolfan Goffa Hedd Wyn ar ei newydd wedd, a dwysfyfyrio ar erchylltra rhyfel. Braf hefyd oedd cydfwynhau cinio danteithiol yn Nhafarn yr Oakley ar y ffordd adref.

**Y Parchg Watcyn James**

Mae'r Parchg Watcyn James bellach wedi symud i'r ardal ac wedi dechrau ar ei weinidogaeth ar Ofalaeth y Garn. Estynnwn groeso cynnes iddo fe a'i briod Lowri i'r ardal. Cafwyd oedfa gyntaf y gweinidog newydd yn y Garn nos Sul Medi 10fed pryd daeth cynulleidfa niferus ynghyd. Cynhelir cyfarfod croeso swyddogol iddo yn y Garn nos Wener, Hydref 13eg.






**Garddwyr lleol**

Bu garddwyr ardal Bow Street yn brysur dros yr haf yn tyfu pob math o ffrwythau a llysiau. Bob bore dydd Sadwrn roeddent yn dod i Neuadd Rhydypennau gydag unrhyw gynnyrch dros ben i'w werthu neu ei gyfnewid gyda garddwyr eraill.

Roedd cyfle am baned a chlonc, ac roedd modd i unrhywun ddod i brynu ffrwythau a llysiau ffres, blodau a phlanhigion o'r gerddi lleol, heb sôn am jam, siytni ayb.

Cafwyd boreau Sadwrn cyfeillgar a phrysur ac mae Neuadd Rhydypennau yn gobeithio ail-gychwyn y cynllun y gwanwyn nesa.



**Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu hanner can mlynedd y Parchg W J Edwads yn y weinidogaeth dydd Sul yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn. Yn y llun gwelir y teulu ddaeth ynghyd i Lanuwchllyn ar gyfer yr achlysur.**



# Garmon i arwain adran newyddion

Mae BBC Cymru wedi penodi Garmon Rhys yn bennaeth newyddion. Bydd Garmon yn arwain datblygiad gwasanaethau newyddion a materion cyfoes BBC Cymru gan gynnwys ar-lein, symudol, radio a theledu.

Yn wreiddiol o Blaen-ddôl, Bow Street, dechreuodd Garmon ei yrfa newyddiadurol yn y BBC yn y flwyddyn 2000, cyn gweithio fel cynhyrchydd teledu a radio mewn amrywiaeth o swyddogaethau ar draws yr arlwy gwleidyddol a materion cyfoes.

Am dair blynedd bu Garmon yn arwain datblygu strategaeth a chynllunio ar draws BBC Cymru, cyn ail-ymuno gyda'r adran newyddion fel dirprwy bennaeth yn 2012 i oruchwylio newyddiaduraeth wleidyddol, arbenigol a Chymraeg.

Dywedodd Garmon Rhys: "Ar adeg o newid enfawr, rwy'n edrych ymlaen at gydweithio'n agos gyda'n tîm o newyddiadurwyr arbennig ar draws Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud popeth sy'n bosibl i gyrraedd cynulleidfaoedd o bob oed ym mhob rhan o'n cenedl."

## LLANDRE

**Graddau**

Llongyfarchiadau i Dylan Huw ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf o Goleg King's, Llundain, ac am dderbyn ysgoloriaeth i astudio gradd MA yng ngholeg Goldsmith's.

Llongyfarchiadau hefyd i Efa Mared ar gael Rhagoriaeth yn ei gradd meistr MA o Brifysgol Caerdydd. A phob hwyl i Efa ar ei thaith dri mis o gwmpas de-ddwyrain Asia.

**Eisteddfodol**

Llongyfarchiadau i Huw Meirion ar ennill dwy wobr gyntaf yn adran lenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau i Wynne Melville Jones ar ei ben-blwydd yn 70 oed ym mis Awst eleni - hefyd Gladys James, Brynllys, sydd hefyd wedi dathlu ei phen blwydd yn 70oed

**Aelodau o Ferched y Wawr yn ymweld**

Cynhaliwyd Penwythnos Preswyl Merched y Wawr yn Aberyswyth o Medi 8 i 10 ac roedd ymweliad â Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn yn un o'r dewisiadau ar gyfer prynhawn dydd Sadwrn. Er dirfawr siom i bawb barnwyd na fyddai'n addas i annog pobl i'w gerdded o ganlyniad i effeithiau'r glaw mawr sydd wedi disgyn yn ystod yr haf. Felly croesawyd y grŵp yn yr eglwys gan Vernon Jones a Gwynfryn Evans a thynnu eu sylw at safle rhyfeddol y fynwent a'r hynod bethau eraill sydd yno. Yn dilyn hynny bu derbyniad ym Methlehem gyda chyflwyniad pwerbwynt ar Llandre heddiw gan Gwynfryn ac Eryl Evans, sgwrs am berthynas pentref Llandre â'r orsaf a'r rheilffordd gan Llinos Dafis, a chyflwyniad a darlleniad o'r cerddi sy'n ymddangos ar y Llwybr Llên gan Vernon Jones. Roedd paned i bawb wedi ei pharatoi gan Llinos Evans ac Eryl Evans.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Lisa Raw Rees a Dafydd Brace Jones Ael-y-bryn, y Borth ar enedigaeth mab bach - Harri yn Ysbyty Bron-glais ar y 7fed o Fedi. Dyma wyr cyntaf i Dafydd a Jane Raw Rees, Tynparc, Llandre. Llongyfarchiadau iddynt hwy hefyd.

**Priodas**

Dymuniadau da i Dafydd, Dolawel a Siân ar eu priodas ddechrau mis Awst – gweler newyddion Penrhyn-coch.

**Newid aelwyd**

Pob lwc i a hapusrwydd i Daniel ac Ann, Llainwen yn eu cartref newydd yn Llangeitho.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Megan Davies, Tanyreithin – fu farw ar 8fed o Fedi. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Garn ddydd Gwener 15fed o Fedi. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.

**Penodiad**

Penodwyd y Parchg Peter Jones yn offeiriad â gofal plwyf Monkton, Sir Benfro gyda chyfrifoldeb i sefydlu ardal weinidogaethol newydd gyda phlwyfi eraill yno. Daeth y Parchg Peter Jones i fod yn offeiriad y plwyf yn Llanfihangel Genau'r-glyn, Tal-y-bont a Llangorwen yn 2011 ac yn ddiweddar bu'n Ddeon Bro.



**Ar Ebrill 29ain fe seiclodd Helen Jones, Aberceiro, ddeunaw milltir ar Lwybr Mawddach. Roedd yn ddiwrnod heulog ac yn sialens bleserus i Helen. Hoffai ddweud Diolch yn fawr i'w holl noddwyr = codwyd cyfanswm o £ 894 i Ymchwil Cancr. Beth fydd yn ei wneud nesaf?**

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Capel Llwyn-y-groes**

Rydym fel aelodau yn gyfrifol am gynnal a chadw Mynwent Aber-ffrwd ac yn ddiweddar 'rydym wedi gorfod gwario tipyn o arian er mwyn sicrhau diogelwch yr ardal o amgylch. Os oes yna unrhyw un sydd â chysylltiad â'r fynwent ac a fyddai yn fodlon cyfrannu tuag at y gost byddem fel aelodau yn falch i glywed oddi wrthych.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes nos Fercher Medi27 am 7.00. Bydd y Gwasanaeth yng ngofal y Parchg Ddr Watkin James, Y Garn a Phen-llwyn.

**Croeso**

Hyfryd yw cael croesawu dau o blant Derek Waller yn ôl i fyw i'r cwm; Kim a'r teulu i Caehaidd a Jamie a'r teulu i Llain.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Dafydd Morris, Neuadd Parc ar farwolaeth ewythr.

## Y BORTH

**Colli cyn brifathro**
Yn dawel ar Awst 14 bu farw Rhidian Hughes, cyn brifathro Ysgol Craig yr Wylfa. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Awst 23. Cydymdeimlwn â aelodau ei deulu.

**Gwella**
Da yw gweld Mrs. Eirwen Owen, Gwesty'r Railway, ar wellhad ar ôl treulio peth amser yn ysbyty Bron-glais.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu y ddiweddar Mrs. Imgard Williams, Heol Aberwennol, a fu farw ddechrau'r haf.

Ar Orffennaf 2il aeth 44 o blant rhwng 1-17 oed, ynghyd â 18 oedolyn ar drip i Barc Fferm Ffantasi Llanrhystud. Cawsom i gyd amser gwych. Roedd y tywydd yn braf, staff y Fferm Ffantasi yn hynod garedig, cynorthwygar ac amyneddgar, fel y maent wastad.. Roedd y 'plant' hŷn yn gymaint o gymorth gyda'r plant bach fel y bu i'r oedolion allu eistedd nôl a mwynhau y diwrnod.  Buom yn bwydo ŵyn, chwarae gyda chwningod, bantamiaid ac anifeiliaid anwes arall; buom ar gychod Pedalo go-karts, meysydd chwarae, sleidiau bownsio dan do a thractorau a tegan a beiciau, Buom ar Bucking Bronco a chael taith tractor a threilar I fwydo y defaid a'r ceffylau yn y cae uchaf- roedd arnom angen dipyn o ymarfer gyda'r reid treilar wrth gydganu. Cafwyd llawer o bethau da i fwyta gan orffen efo hufen ia ar y ffordd allan! Diolch i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd.

Er fod y niferoedd yn fach eleni cafodd y plant fynychodd Cenhadaeth y Traeth amser da. Llongyfarchiadau a diolch i Arwen a fynychodd ar y tri diwrnod. Ar y dydd Mercher roedd dau o blant ar wyliau gydag Arwen a'i chwiorydd Esmee a Lyra. Dydd Iau ymunodd Leo, Mariella ac Elliot gydag Arwen a wnaeth fflip-fflops arbennig ac ar y dydd Gwener pan symudwyd i Neuadd Gymunedol y Borth roedd gan Arwen Izzy a Matilda yn gwmni. Fe wnaethant begiau hongian sanau gwynt hyfryd. Da iawn pawb. Diolch yn fawr i Dan, Clare, Hannah a Jeremy am y straeon, gêmau a'r gwaith celf.





# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 29 Mehefin o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Adroddodd y Clerc fod blwch postio newydd wedi ei osod yn Dolau yn dilyn diflaniad yr hen un. Hynny yw ar ôl galw i gyfri y gwasanaeth postio. Yn dilyn fandaleiddio y matiau o dan gyfarpar yng nghae chwarae Tregerddan, deallir fod yr Heddlu wedi rhoi rhybudd caled i'r drwgweithredwr yn ei gartref, a'i rhybuddio am y canlyniadau os digwydd iddo gamfihafio eto yn y gymuned. Mae'r sietyn drws nesaf i'r neuadd wedi ei thocio a'r llwybr i'r toiledau bellach yn gerddadwy. Dechreuwyd gosod seiliau i'r seti newydd, a bydd chwech sêt yn cael eu gosod yn y dyfodol agos.

Adroddodd y Cynghorydd Paul Hinge ei fod yn dal i obeithio cael cyfarfod gyda perchnogion yr Amlosgfa a chynrychiolydd o Gyngor Ceredigion i drafod sefyllfa y parcio o gwmpas yr adeilad a'r ffordd fawr. Aeth llythyr eto i'r gweinidog Ken Skates yn y Cynulliad yn gofyn am amseriad y gwaith ar lwybr o Rydypennau i'r Dolau. Bydd hefyd yn gofyn i'r awdurdod priodol am y posibilrwydd o gael arosfa bysiau ar yr ochr chwith i'r ffordd gyferbyn â Caerfelin. Mae angen arwydd Dim Cŵn wrth y llidiart i gae chwarae Tregerddan, cwynodd fod pobl o bron pob ardal o'r pentref yn ymarfer eu hanifeiliaid ar y cae ac yn gadael eu baw ar ôl. Yn dilyn cais gan Gerddwyr yr ardal am gael llwybr o Dregerddan i Goed Gogerddan, bydd yn trafod y mater gyda swyddog llwybrau y Cyngor ynghyd a chynlluniau y Brifysgol ac Awdurdod y Briffordd gyda golwg ar y datblygiad ar waelod y pentref mewn cyswllt â'r orsaf arfaethedig.

Tynnwyd sylw y Cyngor at y seti cerbydau a sbwriel arall sydd yn cael ei adael ar gornel o ystâd Maes Afallen. Hefyd yr annibendod mae Openreach wedi ei adael ar ôl i ganghennau syrthio ar linell ffôn ar y ffordd o'r Lôn Groes i Pen-cwm, nid ydynt wedi cwblhau y gwaith. Mae hefyd angen sylw ar wyneb y ffordd hon.

Penderfynwyd peidio a chynnal cyfarfod ym mis Gorffennaf oni bai bod galw sydyn a phwysig. Cynhelir y cyfarfod nesaf felly ar 28 Medi yn Neuadd Rhydypennau.

# Twrnament pêl-droed Bow Street

Mae'r twrnament hwn yn un o'r enwocaf yng Nghymru bellach, ac eleni roedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 15 oed. Ar benwythnos 8 a 9 Gorffennaf daeth nifer fawr o dimau, cefnogwyr a gwylwyr i fwynhau'r gemau ar Gae Piod. Braint oedd cael cwmni dirprwy reolwr tîm pêl-droed Cymru, Osian Roberts, am rai oriau ar y prynhawn Sadwrn, ac o ddarllen ei sylwadau ar ei gyfrif Trydar, roedd wedi cael prynhawn wrth ei fodd ac wedi cael argraff ffafriol dros ben.

Dywedodd Wyn Lewis, cadeirydd y clwb: 'Roedd e'n benwythnos gwych, ac roedd y tywydd o'n plaid. Fel clwb, rydym yn hynod falch o fedru cynnal digwyddiad mor arbennig, a hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi helpu i sicrhau llwyddiant y twrnament. Dwi am ddiolch yn arbennig i'r fyddin o wirfoddolwyr o'r clwb weithiodd mor galed. Aeth popeth yn llyfn a hwylus dros ben, diolch iddyn nhw. Mae sôn fod dros 1600 o bobl yn y twrnament pnawn Sadwrn, felly diolch i bob un wnaeth ddod i wylio'r gemau.

'Hoffwn ddiolch i'n noddwyr – Subway, Aberystwyth – am eu cefnogaeth, a diolch yn fawr hefyd i'n Haelod Seneddol, Ben Lake, am ddod i gefnogi'r digwyddiad ar y bore Sul.'

Ychwanegodd Amlyn Ifans, un o'r trefnwyr: 'Mae'n bleser cael trefnu'r digwyddiad arbennig hwn, a gweld y mwynhad ar wynebau'r chwaraewyr a'r dorf. Mae swyddogion y clwb yn gweithio'n ddi-baid er mwyn gofalu bod popeth yn rhedeg yn hwylus drwy gydol y penwythnos, ac mae'r profiadau y mae'r chwaraewyr yn eu cael drwy gydol y twrnament yn amhrisiadwy.'

Roedd rhai timau wedi dod o gryn bellter eleni – o Bont-y-clun a Phwllheli – ac am y bedwaredd flwyddyn yn ddilynol, cynhaliwyd y cystadlaethau i'r merched ar y cae 3G. Hefyd ar y bore Sul, cynhaliwyd sesiwn yn arbennig ar gyfer merched 4 – 7 oed, dan ofal Meirion Appleton. Daeth dros 40 o ferched i'r sesiwn honno.

**O dan 6 oed**
Enillwyr – Llambed
Yr ail orau – Caerfyrddin
**O dan 8 oed**
Enillwyr – Rhaeadr Gwy
Yr ail orau – Llambed
**O dan 10 oed**
Enillwyr – Llambed
Yr ail orau – Y Drenewydd
**O dan 11 oed**
Enillwyr – Sêr Caerfyrddin
Yr ail orau – Aberriw
**O dan 12 oed**
Enillwyr – Rhaeadr Gwy
Yr ail orau – Penrhyn-coch
**O dan 14 oed**
Enillwyr – Aberaeron
Yr ail orau – Caerfyrddin
**O dan 16 oed**
Enillwyr – Bow Street
Yr ail orau – Ffostrasol
**Merched o dan 13 oed**
Enillwyr – Bow Street
Yr ail orau – Bow Street B
**Merched o dan 11 oed**
Enillwyr – Ffostrasol
Yr ail orau – Bow Street
**Gwobr Goffa Mark Horwood**
(I'r chwaraewr lleol gorau)
Sadwrn – Carter Norris (Tal-y-bont)
Sul – Ryan Evans (Bow Street)
**Chwaraewr Gorau**:
Sadwrn – Jack Roderick (Pont-y-clun)
Sul – Iwan Lloyd (Ffostrasol)



Carter Norris – enillydd tlws Mark Horwood ar y dydd Sadwrn, gyda Harri a Jac Horwood



Gweithwyr – Osian Roberts yn cwrdd ag aelodau'r clwb a fu'n paratoi lluniaeth i'r holl ymwelwyr



Barry Williams – Rhelowr tîm cyntaf Bow Street yn cwrdd ag Osian Roberts



Elystan Morgan yn dadorchuddio plac yn dangos gwerthfawrogiad y clwb i'r noddwyr



Merched Bow Street dan 11 gydag Osian Roberts



Noddwyr – Elystan Morgan gyda phrif noddwyr y clwb – o'r chwith: Dylan Roberts, Justin Manley, Colin Ewart, Stevie Hughes a Danny Whiteway

## Colofn Enwau Lleoedd

Fe gofiwch i mi, yn rhifyn Mehefin o'r *Tincer*, fod yn trafod *Llety-caws* neu *Lety-caws Duon* yng Nghwmerfyn, gan ystyried y posibilrwydd mai enw difrïol ydoedd am le oedd yn cynnig fawr o groeso, ac roedd y pennill a adroddai mam Tegwyn Jones, Bowstreet, yn tueddu i ategu hynny.

Rwy'n ddiolchgar i Daniel Huws, Tyddyn Seilo, am gysylltu gyda fersiwn fymryn yn wahanol o'r pennill (ac wrth gwrs mae amrywiadau o'r fath yn hollol arferol yn achos penillion sy'n cael eu trosglwyddo ar lafar). Clywodd Daniel y fersiwn gan Dai Rowland Jones, gŵr a aned ym Mont-goch, ond a fu'n byw ym Mhenrhyn-coch:

> Yn Llety-caws y bûm yn lojo
> Heb un cysur ond tybaco;
> Dod â the a llaeth a siwgwr,
> Llety-caws yn iwsio'r cwbwl.

Mae'r fersiwn hon hithau yn cefnogi'r dybiaeth mai lle digon llwm a digysur oedd *Llety-caws* i letywyr.

Nododd Daniel Huws i Dai Rowland Jones sôn hefyd mai enw arall ar *Lety-caws* oedd *Llety'r-glem*. Diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o *llety'r glem* yw '*poor place or situation, state of starvation, destitution*', a dyfynnir yr enghraifft hon oddi ar lafar yng ngogledd Ceredigion:

> '*Llety'r glem* yw hi yna yn ôl pob gwas a fu 'na'.

Fy nheimlad i yw mai disgrifiad oedd *llety'r glem* yn hytrach nag enw lle fel y cyfryw (rhywbeth yn debyg i *dyddyn llwgfa* efallai) ond mae'n ddisgrifiad difyr sydd unwaith eto'n cadarnhau'r dehongliad o'r enw.

Go brin bod unrhyw un ar frys i wasanaethu na lletya yn *Llety-caws Duon* ers talwm felly!

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

**owain bebb a'i gwmni**
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
**Aberystwyth** 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
**Caernarfon** 01286 677 624
**Pwllheli** 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

**Porchell**
**Eich cigydd lleol**
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**GALAR A FI**
**7.00, nos Fercher, 27 Medi**
Noson yng nghwmni rhai o gyfranwyr y gyfrol hon – Esyllt Maelor, Sara Maredudd Jones, Nia Gwyndaf, Manon Steffan Ros, Sharon Marie Jones, Gareth Roberts a Dafydd Pritchard. Profiadau ingol o fyw gyda galar. Mynediad am ddim. Croeso i bawb. Trefnir gan Y Lolfa a Morlan.

**STOMP LLYFRAU: LLYFR Y FLWYDDYN**
**7.30, nos Wener, 13 Hydref**
Bydd 9 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o Lyfr y Flwyddyn. Pa lyfr daw i'r brig tybed? Mynediad: £3

**morlan.cymru**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
**7 y bore – 9 yr hwyr**
Sul
**7 y bore – 7 yr hwyr**
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH CYFIEITHU**
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
**01970 828454**
lindagriffiths01@btinternet.com

# Ysgol Pen-llwyn







**Sioe Arad Goch**
Bu diwedd tymor yr haf yn fwrlwm o weithgareddau prysur fel arfer. Bu cwmni'r Arad Goch yn perfformio sioe ar Hedd Wyn fel rhan o gofio canmlwyddiant ei farwolaeth yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Ail – gylchu**
Bu Mererid atom yn yr ysgol yn dangos i ni'r ffordd gywir o ail-gylchu . Cafodd y plant weld ar ffilm sut mae peiriannau yn ail-gylchu ein gwastraff a bu'n gyfrwng i godi ymwybyddiaeth ymysg y plant.

**Diogelwch ar y beic**
Daeth y P.S.O. Dave Goffin a Christopher Tipper atom i ddysgu blwyddyn 5 a 6 sut i fod yn saff ar y beic drwy wisgo helmedau a chadw at reolau'r Ffordd Fawr.

**Trip blynyddol**
Aeth ein trip blynyddol â ni i Gelli Gyffwrdd eleni yn ochrau Caernarfon a chafwyd diwrnod gwerth chweil a diwrnod eithaf sych . Cafodd y plant hwyl fawr ar y cychod, ar y ffrâm ddringo, ar y trampolîn enfawr, yn gweld sioe hud, ar y sleids dŵr, y rolercoster, y llwybr troednoeth , ac ar y go-carts cyn gwario pob ceiniog yn y siop anrhegion !

**Mabolgampau 2017**
Eleni cynhaliwyd mabolgampau ar y cyd gyda Ysgol Penrhyn-coch ar gaeau Cwmrheidol ac er ei bod yn boeth, buom yn ffodus iawn o gael gorffen y rasus cyn i'r glaw ddymchwel. Cafwyd cystadlu brwd gan y ddwy ysgol gyda llawer iawn o rieni wedi dod i gefnogi. Yn y lluniau gwelir prif bencampwyr y ddwy ysgol sef Ana ac Efan o Ysgol Pen-llwyn a Seren Bedder a Luke Bowen o Ysgol Penrhyn-coch. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt.

**Ffarwelio**
Yn anffodus roedd diwedd tymor yn amser i ffarwelio â Miss Alison Griffiths fu'n gweithio yn Ysgol Pen-llwyn am nifer o flynyddoedd. Byddwn yn ei cholli yn fawr a dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Craig yr Wylfa.

Yn ogystal roedd yn rhaid ffarwelio â phlant blwyddyn 6. Bu'r plant a'r staff am bryd o fwyd hyfryd yng nghlwb golf Penrhos, Llanrhystud wedi gêm o golff .Byddwn yn eu colli yn fawr ond dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu hysgolion newydd ac i'r dyfodol.








SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**

**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Ysgol Craig yr Wylfa

**Croeso**
Ar ddechrau'r tymor, hoffwn groesawu disgyblion newydd i'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen croesawn Jayden, Oscar, Bowen, Connor a Tegan i'r Derbyn. Yn nosbarth Cyfnod Allweddol dau, croesawn aelod o staff newydd sef Miss Alison, a fydd yn gweithio fel cynorthwyydd yn y dosbarth. Yn ogystal â hyn, hoffai'r ysgol groesawu Mr Jones y pennaeth yn ôl o'i gyfnod secondiad o'r Sir, a chymryd y cyfle i ddiolch i Mrs Edwards am ei gwaith anhygoel pan yn ei rôl fel y pennaeth dros y flwyddyn a fu.

**Llwyddiant yn Sioe Aberystwyth**
Da iawn i sawl disgybl yn eu llwyddiant gyda'u gwaith celf a chrefft yn Sioe Aberystwyth.

**Penwythnos yn Llangrannog.**
Ar ddechrau mis Mehefin, aeth rhan fwyaf o blant Cyfnod Allweddol dau i aros yn Llangrannog am y penwythnos. Roedd y plant (a'r athrawon) wedi cael penwythnos i'w chofio yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog, gan wneud llawer iawn o weithgareddau hwyl.

**Mabolgampau'r Ysgol a'r Sir**
Da iawn i bob plentyn a wnaeth gymryd rhan ym Mabolgampau'r ysgol a disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a gymerodd ran ym Mabolgampau'r Sir. Roeddech i gyd yn ardderchog! Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi Mabolgampau'r Ysgol.

**Llwyddiant Ysgolion Iach.**
Rydym wedi cael ein gwobrwyo gyda Lefel 3, asesiad Ysgolion Iach. Hwre! Diolch Miss Kayleigh am dy holl waith caled i gyrraedd y drydedd lefel.

**Trip Ysgol**
Eleni aeth y Cyfnod Sylfaen am drip i Lanerchaeron. Cafodd pawb gyfle i wneud cuddfannau yn y goedwig, i chwilota am anifeiliaid yn y llyn a chyfle i fynd o amgylch y plasdy.

Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol Dau i "Naturebase" yng Nghilcennin ble cawsant gyfle i adeiladu cuddfannau, dysgu sut i gynnau tân, coginio a bwyta "marshallows" a hefyd cyfle i flasu dail poethion!

Roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer y gweithgareddau allanol ac roedd pawb wedi cael diwrnod i'r brenin!

**"Tickledom"**
Bu'r ysgol gyfan yn gwylio sioe o'r enw "Tickledom" ar ddiwedd y tymor yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Roedd y plant wedi mwynhau gwylio'r sioe a mwynhau medru ymuno yn y canu a'r dawnsio.







**Ffarwelio**
Ar ddiwedd tymor yr Haf, roedd yr ysgol yn drist iawn i ffarwelio â saith disgybl o flwyddyn 6, a dwy aelod ffyddlon o'r staff. Ffarweliwyd ag Oliver, Eliza, Elise, Imogen, Phoebe, Skye a Louisa a dymunwn pob lwc iddynt yn Ysgol Penglais. Ffarweliom a dymuniadau da i Miss Rhiannon a Miss Tessa, ar eu cyrsiau maent am eu dilyn yn y Brifysgol.

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Miss Kayleigh ar enedigaeth ei mab annwyl, Charlie. Roeddem i gyd yn yr ysgol wrth ein boddau pan ddaeth y ddau i ymweld â ni ar ddiwrnod olaf y tymor.







I ffarwelio â phawb ac i ddathlu llwyddiant pob disgybl dros y flwyddyn, cynhaliwyd Cyngerdd Ffarwelio ar eu cyfer oll ar y diwrnod olaf o'r tymor. Cymerwyd rhan gan bob disgybl, wrth iddynt rannu eu talent wrth berfformio. Hefyd cyflwynwyd tystysgrifau presenoldeb aur, arian ag efydd i'r plant. Llongyfarchiadau i Elise am ennill tarian Peter Glover am y prosiect gorau am "Ddŵr". Da iawn pawb!

**Llysgenhadon newydd.**
Llongyfarchiadau a pob lwc i Glyn a Finn yn eu rôl fel llysgenhadon efydd am y flwyddyn yn yr ysgol.

# Ysgol Rhydypennau

**Garddwest yr ysgol**
Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar y 30ain o Fehefin. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau er mwyn codi arian i'r ysgol. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwyr, Robert ac Alison Grover. Diolch hefyd i noddwyr y gwobrau, Rhodri a Cêt Morgan, Mid Wales Travel a Spar Bow-Street am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau a chyfarpar pwysig er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Dal lan â'r digwyddiadau**
**Mabolgampau**
Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 15ed o Fehefin. Y tîm buddugol oedd Eleri; ail oedd Ystwyth gyda Rheidol yn drydydd. Llongyfarchiadau i Elen Morgan (bl 6) am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 5 a 6; Harri Jones (bl 6) am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth bechgyn 5 a 6; Llio Tanat (bl 4) am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 3 a 4 a Gethin Davies (bl 4) am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth bechgyn blwyddyn 3 a 4.

**Gala Nofio**
Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Ystwyth. Elen Morgan (bl 6) lwyddodd i ennill y wobr am y nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched a Noa Elias (bl 3) lwyddodd i ennill cystadleuaeth prif bwyntiau'r bechgyn.

**Ffarwelio**
Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd.
Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â Miss Olwen Morus ar ddiwedd tymor yr Haf. Bu Miss Morus yn aelod o'n staff dysgu'r am ddegawd. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon iddi am ei gwaith caled yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*











*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
Brecwast ar gael
01970 820 050


# Ysgol Penrhyn-coch

**Mabolgampau Ysgol Penrhyn-coch a Phen-llwyn**
Ar ddiwrnod crasboeth o haf cynhaliwyd ein mabolgampau blynyddol ar y cyd â Ysgol Pen-llwyn i lawr ar safle hudolus Cwmrheidol.Cafwyd cystadlu iach a brwd rhwng Seilo a Rheidol a Stewi a Melindwr.

**Arddangosfa crochenwaith rhyngwladol**
Cynhaliwyd penwythnos crochenwaith yn Neuadd y Celfyddydau i ddathlu gwaith rhyngwladol a braf oedd gweld arddangosfa 'Cantre'r Gwaelod' gan ddisgyblion bl 4 a 5.Mwyheuodd rhai o'r plant weld eu gwaith yn ystod y penwythnos.

**Cyngerdd Proms**
Braf oedd gweld nifer dda o ddisgyblion blwyddyn 6 yn canu a mwynhau yn 'Proms' Ceredigion eleni.Cyfle gwych i gymdeithasu gydag eraill cyn symud i'r ysgolion uwchradd.

**Ffair haf**
Roedd yna fwrlwm yn ystod y ffair haf eleni cafwyd nifer o weithgareddau i ddiddanu'r plant rhieni a ffrindiau'r Ysgol-cestyll bownsio,tarw troelli, stondinau losin, cacennau a chrefft, digon o fwyd ac i orffen yr hwyl twrnament pêl-droed rhwng y disgyblion a'u rhieni!
Diolch i'r criw Cymdeithas Rhieni am drefnu a pharatoi y cwbwl.

**Trip Ysgol-Gelli Gyffwrdd Y Felinheli**
Rhaid oedd mwynhau diwedd tymor brysur iawn ar ein Trip blynyddol! Cafodd pawb amser wrth eu bodd ym mharc Gelli Gyffwrdd –roedd pob oedran wedi mwynhau!

**Dathlu prosiectau blwyddyn 1 a 2**
Cafodd disbyblion dosbarth 2 her prosiect i gwblhau adre ar y thema 'Coedwig Trofanol'-cafodd pawb y cyfle i gyflwyno eu gwaith ac hoffwn ddiolch i Gill Saunders Jones o gwmdi @ebol am ddod i feirniadu ac am roi sawl gwobr fel rhodd. Roedd y plant wrth eu boddau a diolch i'r nifer fawr o rieni a ddaeth i weld gwaith y disgyblion ac i fwynhau diod trofanol a chacen gyda ni.

**Swper cymunedol**
Cynhaliwyd swper cymunedol trwy gydweithrediad 'Aber food Surplus, Penrhyn Veal a'r Brownies'. Trefnwyd trwy Clare Larke a Jane a braf oedd gweld y criw garddio yn medru defnyddio eu cynnyrch yn y gegin. Ni fyddai swper heb gogyddes a diolch yn fawr i Cathy Jones am greu campwaith yn y gegin! Braf cael y gymuned gyda'i gilydd.

**Ffarwelio â blwyddyn 6**
Hoffwn fel staff a disgyblion dymuno pob lwc i'r criw mawr o flwyddyn 6 sydd wedi ein gadael i gychwyn ar daith newydd yn yr ysgolion uwchradd. Bydd wastad croeso i chi ddod nôl atom unrhyw bryd.

**Ennill Cam 5 ysgolion iach**
Mae'r ysgol erbyn hyn wedi ennill cam 5 yn rhaglen ysgolion iach Ceredigion. Diolch i'r criw Cyngor Ysgol ac Eco Sgolion am hyrwyddo ein hysgol yn ystod yr asesiad.

**Swyddogion newydd Teithiau Iach-'Sustrans'**
Penodwyd criw newydd i'r flwyddyn ysgol 17-18 gan y swyddogion presenol. Bydd Gwion Wilson yn parhau ac yn arwain ar y prosiectau newydd. Diolch i'r holl blant a ddangosodd ddiddordeb mawr - pob hwyl i'r criw newydd sef-Gwenan Jenkins, Sophie Brown, Ryan Bowen, Tomos James, Steffan Gillies, Annie May ac Olivia Hughes Evans.

**Sioe Frenhinol Cymru**
Eleni eto cafwyd sawl gwobr yn adran y plant –Canlyniadau-Gwenan 1af cacennau siocled, Gruffudd ap Llywelyn 2il Octapws clai a 3ydd addurno cacennau, Mari Gibson 3ydd bisgedi. Da iawn hefyd i'r criw yma am gystadlu-Lleucu ap Llywelyn, Gwen Gibson, Jamie a Cayden Holmes, Lacey Walker a Molly Ralphs.
Da iawn i Gwenan Jenkins hefyd am ennill y nifer mwyaf o bwyntiau yn adran y Gwenyn gyda'i gwaith crefft a choginio-grêt. Braf oedd gweld whilber clwb cadw'n iach oedd wedi ei addurno ar thema 'Guto Gwningen' yn derbyn cerdyn 'cymeradwyaeth uchel'. Roedd yn bleser ei gweld hi ymysg tua 12 o whilberi campus! Diolch i Carys Jenkins a Clare Larke am gynorthwyo a datblygu syniadau'r plant.








# Tasg y Tincer

Croeso 'nôl i chi i gyd! Sut aeth y gwyliau? Mae'n siŵr fod sawl un ohonoch chi wedi bod yn crwydro ... Ynys Môn, Majorca, Machynlleth, Madrid, Y Mwmbwls, Morocco ... a rhai wedi mwynhau aros adre; wedi'r cyfan, mae 'da ni ddigon o bethau i'w gwneud yn y rhan hon o Geredigion. Ble bynnag y buoch chi, gobeithio i chi gael amser braf. Dau o ddarllenwyr ifanc *Y Tincer* fentrodd ar y lliwio: Eirion Davies, Llanilar a Cari Jenkins, Penrhyn-coch. Am luniau hyfryd! Diolch am eich gwaith, a dy enw di, Cari, ddaeth o'r het y tro hwn – llongyfarchiadau mawr i ti.

Mae'r rhifyn hwn o'r *Tincer* yn un arbennig iawn. Daeth rhifyn cyntaf y bapur o beiriannau argraffu'r Lolfa ym Medi 1977. Mae'r papur, felly, yn 40 oed y mis hwn. Byddai'r papur yn cael ei roi at ei gilydd efo siswrn a glud bryd hynny, a lot o chwys a chrafu pen wrth symud tudalennau a chael popeth i'w le. Doedd dim sôn am Apple na Microsoft yn 1977. Y pris? 10 ceiniog. Roedd y cyfan mewn print du a gwyn, a doedd dim tudalen arbennig i'r plant, dim ond cornel! Bu'n rhaid aros tan fis Medi 2008 cyn cael *Y Tincer* mewn lliw. Mae'r rhifyn cyntaf hwnnw o 1977 ar wefan *Y Tincer*, ac mae'n werth ei weld: www.trefeurig.org/tincer.php

Dim ond un ffordd sydd o ddathlu pen-blwydd – trwy gael cacen, wrth gwrs! Does dim hanner digon o ganhwyllau ar y gacen sydd i'w lliwio, yn nag oes! Croeso i chi ychwanegu'r gweddill. Pa liw eisin fydd arni, tybed? A beth am sgwennu cyfarchion arni hefyd? Pen-blwydd hapus yn 40 oed i ti, *Y Tincer*!

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol,
Tasg y Tincer,
3 Brynmeillion,
Bow Street,
Ceredigion
SY24 5BP erbyn Hydref 1af.
Pob hwyl i chi i gyd yn eich dosbarthiadau a'ch ysgolion newydd!



Cari

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 401 | MEDI 2017*